

Tuag at y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol: Adroddiad Terfynol

Simeon Yates^a, Katherine Hill^c, Chloe Blackwell^c, Emma Stone^b, Gianfranco Polizzi^a, Rebecca Harris^a, Jeanette D’Arcy^a, Abigail Davis^c, Matt Padley^c, Dan Roberts^d, Jocelle Lovell^d, a Hamish Laing^e.

Ionawr 2023

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio canlyniadau o'r 'Prosiect Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru'



^a Prifysgol Lerpwl

^b Good Things Foundation

^c Prifysgol Loughborough

^d Cwmpas

^e Prifysgol Abertawe

Cynnwys

| | | |
|-------|--|----|
| 1 | Cyflwyniad | 1 |
| 1.1 | Tirwedd cynhwysiant digidol a llythrennedd digidol ehangach | 3 |
| 1.2 | Prif fewnwelediadau'r ymchwil | 3 |
| 2 | Dull | 5 |
| 2.1 | Y ddadl dros Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru. | 5 |
| 2.2 | Adeiladu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar y fethodoleg Safon Isafswm Incwm | 6 |
| 2.3 | Gallu: Deilliannau i unigolion a chymunedau | 7 |
| 2.4 | Diffiniad presennol o'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol | 7 |
| 3 | Adeiladu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru | 8 |
| 3.1 | Cwestiynau ymchwil allweddol yn ymwneud â Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru..... | 8 |
| 3.2 | Gweithgareddau ymchwil..... | 8 |
| 3.2.1 | Cyfweliadau Delphi gyda Rhanddeiliaid..... | 9 |
| 3.2.2 | Arolwg Delphi..... | 9 |
| 3.3 | Canfyddiadau allweddol o'r llenyddiaeth..... | 10 |
| 3.4 | Canfyddiadau allweddol o gyfweliadau Delphi ac arolwg gyda rhanddeiliaid.. | 11 |
| 3.4.1 | Arsylwadau cyffredinol..... | 11 |
| 3.4.2 | Gallai Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru newid y ffordd y mae sefydliadau'n gweithio..... | 12 |
| 3.4.3 | Mae fforddiadwyedd yn agwedd bwysig o ran hygyrchedd..... | 16 |
| 3.4.4 | Natur wledig..... | 17 |
| 3.4.5 | Yr Iaith Gymraeg..... | 19 |
| 3.4.6 | Perchnogaeth gan bobl Cymru | 20 |
| 3.4.7 | Amrywiaeth cymunedau ac unigolion | 20 |
| 3.4.8 | Sgiliau a Hyfforddiant..... | 21 |
| 3.4.1 | Gweithredu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru..... | 21 |
| 4 | Canlyniadau grwpiau'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru..... | 24 |
| 4.1 | Dull..... | 24 |
| 4.1.1 | Adeiladu ar Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU..... | 25 |
| 4.1.2 | Datblygu diffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol..... | 25 |
| 4.1.3 | Penderfynu beth sydd ei angen ar gyfer Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol | 26 |

| | | |
|-------|--|----|
| 4.2 | Datblygu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar gyfer cartrefi â phlant yng Nghymru | 27 |
| 4.3 | Nwyddau a gwasanaethau digidol ar gyfer Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru | 29 |
| 4.3.1 | Band eang | 29 |
| 4.3.2 | Ffôn symudol a data | 30 |
| 4.3.3 | Gliniadur | 34 |
| 4.3.4 | Teledu..... | 35 |
| 4.3.5 | Seinydd clyfar | 35 |
| 4.3.6 | Chwarae gemau fideo..... | 36 |
| 4.3.7 | Clustffonau..... | 36 |
| 4.3.8 | Argraffydd | 36 |
| 4.4 | Sgiliau a gwybodaeth..... | 37 |
| 4.4.1 | Sgiliau ymarferol a gweithredol ar gyfer tasgau a gweithgareddau bob dydd | 39 |
| 4.4.2 | Sgiliau ar gyfer deall a rheoli risgiau digidol..... | 41 |
| 4.5 | Crynodeb o gynnwys Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar gyfer cartrefi â phlant | 43 |
| 4.6 | Cyrraedd Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol – cyfrifoldebau, rhwystrau a beth allai helpu..... | 43 |
| 4.6.1 | Seilwaith – mynediad i fand eang | 43 |
| 4.6.2 | Cefnogaeth ysgol a rhieni | 46 |
| 4.6.3 | Cyfrifoldeb ehangach – darparwyr gwasanaethau, llwyfannau, a'r Llywodraeth | 47 |
| 4.7 | Y Gymraeg..... | 48 |
| 5 | Casgliadau..... | 50 |
| 5.1 | Diffiniad o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru..... | 50 |
| 5.2 | Gweithrediad Polisi | 50 |
| 5.3 | Gweithrediad Ymarferol | 50 |
| 5.4 | Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru v Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol | 50 |
| 5.5 | Meysydd ar gyfer ymyrraeth polisi neu ffocws | 51 |
| 5.5.1 | Mynediad a fforddiadwyedd | 51 |
| 5.5.2 | Hyfforddiant a chefnogaeth..... | 52 |
| 5.5.3 | Cyswllt ag adnoddau lleol neu ranbarthol eraill..... | 52 |
| 5.6 | Argymhellion | 53 |

| | | |
|-------|--|----|
| 5.7 | Cydnabyddiaethau | 53 |
| 6 | Adnoddau Digidol Llywodraeth Cymru..... | 54 |
| 7 | Atodiad Un: Cyfarfod Rhwydwaith Cynghair Cynhwysiant Digidol..... | 55 |
| 7.1 | Cyfarfod Rhwydwaith 17 Chwefror 2022..... | 55 |
| 7.1.1 | Beth fyddai eich sefydliad yn disgwyl ei weld yn cael ei gynnwys mewn Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru | 55 |
| 7.1.2 | Sut y gallai Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol fod yn ddefnyddiol i chi ac i'r cymunedau yr ydych chi'n gweithio gyda nhw?..... | 57 |
| 7.1.3 | Yn ehangach, sut gall aelodau Cynghair Cynhwysiant Digidol Cymru gefnogi dulliau cyd-gynhyrchu mewn rhaglenni a pholisïau cynhwysiant digidol? . | 58 |
| 8 | Atodiad 2: Sefydliadau targed ar gyfer ymgynghoriad Delphi | 60 |
| 9 | Appendix Atodiad Tri: Canllaw Cyfweiliad Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Randdeiliaid | 61 |
| 9.1 | CYD-DESTUN A'R DIGIDOL | 61 |
| 9.2 | DIFFINIAD O SAFON OFYNNOL AR GYFER BYWYD DIGIDOL YNG NGHYMRU | 61 |
| 9.3 | GOBLYGIADAU POLISI AC YMARFEROL CYFLWYNO SAFON OFYNNOL AR GYFER BYWYD DIGIDOL YNG NGHYMRU..... | 62 |
| 10 | Ôl-nodiadau | 63 |

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â phrosiect a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru. Mae'n adeiladu ar brosiect ledled y DU a arianwyd gan Sefydliad Nuffield a Nominet i ddatblygu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn y DU¹. Datblygwyd y syniad ar gyfer Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol gan dîm prosiect Nuffield - (Prifysgol Lerpwl, Prifysgol Loughborough, Good Things Foundation a City University) ychydig cyn dechrau Covid19 a'r straen presennol ar incwm aelwydydd o dan yr "argyfwng costau byw".

Wrth ddatblygu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru, rydym ni'n edrych ar un o'r materion allweddol a ddaeth i frig yr agenda polisi a chyhoeddus o ganlyniad i'r pandemig a'r argyfwng costau byw dilynol – **rîsg a gwirionedd allgáu digidol**. Mae graddfa a phwysigrwydd systemau a chyfryngau digidol yn ein bywydau bob dydd yn fwy amlwg nawr nag erioed. O ganlyniad, mae'r gwahaniaeth digidol rhwng y rhai sydd â dyfeisiau a data – yn ogystal â'r sgiliau a'r gallu – a'r rhai hebddynt yn fwy amlwg a chanlyniadol ag erioed.

Mae anghydraddoldeb digidol yn cynnwys gwahaniaethau, diffygion a chyfyngiadau o ran mynediad, sgiliau a gallu mewn perthynas â systemau a chyfryngau digidol sy'n arwain at oblygiadau sylweddol i ddinasyddion, aelwydydd a chymunedau. Mae'r canlyniadau hyn yn amrywio o effeithiau uniongyrchol megis diffyg mynediad at addysg neu ofal iechyd, i gostau uwch am wasanaethau a nwyddau bob dydd, i heriau bob dydd fel rheoli arian. Gall diffyg mynediad digidol hefyd adael dinasyddion yn ynysig yn ddiwylliannol neu'n bersonol wrth i fywyd bob dydd, perthnasoedd a'r cyfryngau, symud ar-lein. Y rhai sydd fwyaf difreintiedig sydd mewn perygl o fod fwyaf ar eu colled. Mae mynediad i systemau digidol, y cyfryngau a sgiliau hefyd yn cael ei weld fel rhan greiddiol o hawliau dynol a materion cydraddoldeb ehangach fel y nodwyd gan UNESCO a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol².

Mae'r pandemig a'r argyfwng costau byw, ar y naill law, wedi datgelu allgau digidol absoliwt lle nad oes gan ddinasyddion y mynediad, y sgiliau a'r galluoedd i ddefnyddio systemau a chyfryngau digidol yn llawn. Felly, mae unigolion bregus dan anfantais sylweddol - wedi'u datgysylltu'n gymdeithasol, yn ei chael hi'n anodd yn economaidd, yn methu â chael mynediad at fudd-daliadau, gwasanaethau iechyd, cymorth gan y llywodraeth, na gwneud taliadau ar-lein. Ar y llaw arall, mae'r digwyddiadau diweddar hyn hefyd wedi datgelu cymhlethdod allgau digidol cymharol, gan wneud yr heriau a wynebir gan 'ddefnyddwyr cyfyngedig' yn amlwg, wrth i filiynau sydd â mynediad eto fethu ag elwa'n llawn o fynediad at systemau digidol a chyfryngau oherwydd diffyg sgiliau, cefnogaeth a gallu³. Mae ffocws ar allgáu cymharol yn amlygu'r cyfuniad o adnoddau digidol a sgiliau sydd eu hangen i ategu gallu aelwydydd i gynnal gwaith, addysg a rhyngweithio cymdeithasol. Roedd tystiolaeth a ddogfennwyd yn flaenorol^{Error! Bookmark not defined.} yn dangos bod y cyfleoedd a'r galluoedd i ddefnyddio offer digidol i weithio gartref a darparu cyfleoedd addysgol heb gael eu dosbarthu'n deg. Mae'r argyfwng costau byw wedi codi cwestiynau pellach am effeithiau fforddiadwyedd at fynediad digidol a mynediad at sgiliau a chymorth digidol⁴.

Ond nid yw heriau allgáu digidol ac anghydraddoldebau yn rhai newydd. Nid ydynt chwaith yn benodol i bandemig Covid-19, nac i incwm aelwydydd sy'n cael ei herio. Mae tystiolaeth ymchwil⁵ a phrofiad ymyrraeth yn awgrymu cydadwaith cymhleth rhwng lefelau a mathau o anghydraddoldebau cymdeithasol a digidol. Er gwaethaf hanes y gwaith ar anghydraddoldebau digidol, mae llawer o gynigion polisi cyfredol ledled y byd yn parhau i ganolbwyntio eto ar fynediad digidol (band eang). Yn aml, mae dulliau o'r fath yn diffinio 'eithrio' digidol yn bennaf o ran mynediad materol at dechnolegau yn hytrach na sgiliau a chymorth. Mae angen sylweddol felly am ddealltwriaeth ddyfnach o gynhwysiant digidol ac am fesurau mwy cadarn i lywio ymyriadau. Mae prosiectau Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru a'r DU wedi ymateb yn uniongyrchol i'r angen am fesur mor gadarn.

Mae Cymru'n wynebu heriau amlwg o ran cynhwysiant digidol, yn enwedig materion iaith, amddifadedd cymdeithasol, poblogaethau gwledig anghysbell, a phoblogaeth sy'n heneiddio⁶. Felly, cynigiwyd dangosydd cenedlaethol newydd ar gyfer cynhwysiant digidol yn 2021 i fesur statws cynhwysiant digidol. Bydd y diffiniad ar gyfer y dangosydd hwn yn cael ei lywio gan ganlyniad y prosiect ymchwil hwn ar Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyflawnwyd gan dîm Prifysgol Lerpwl, Prifysgol Loughborough, Good Things Foundation, a CWMPAS. Yn y cyfamser, mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2021-22 yn dangos bod 93% o'r rhai sy'n 16 oed ac yn hŷn yn defnyddio'r rhyngwrwd yn bersonol gartref, yn y gwaith neu yn rhywle arall. Ar hyn o bryd mae'r arolwg hefyd yn gofyn cwestiynau am weithgarwch digidol a'r sgiliau sydd gan bobl. Mae'r rhain wedi'u grwpio i 5 math o sgil:

- trin gwybodaeth a chynnwys
- cyfathrebu
- trafodion
- datrys problemau
- bod yn ddiogel ac yn gyfreithlon ar-lein

Yn 2021-22, roedd 78% o ddefnyddwyr rhyngwrwd wedi perfformio gweithgareddau a oedd yn ymwneud â phob un o'r 5 sgil hyn o'i gymharu â 73% yn 2019-20. Yn gyffredinol, serch hynny, nododd yr arolwg duedd ar i fyny addawol gyda 92% o gartrefi yng Nghymru â mynediad i'r rhyngwrwd yn 2021-22 o'i gymharu â 73% yn 2012-13. Yn 2021-22 canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru nad yw 7% o ddinasyddion 16 oed ac yn hŷn sy'n byw yng Nghymru yn defnyddio'r rhyngwrwd yn bersonol. Mae'r ffigur hwn yn uwch na gweddill y DU fel y'i mesurwyd gan Ofcom⁷, sy'n awgrymu bod bwlch cynyddol rhwng y rheini sydd â mynediad, ac felly bydd eu hanghenion yn canolbwyntio ar sgiliau a chymorth, a'r rheini y mae mynediad yn dal i fod yn brif broblem iddynt.

Fodd bynnag, mae gan Strategaeth Ddigidol Cymru 6 cenhadaeth sy'n cwmpasu gwasanaethau cyhoeddus, cynhwysiant, data, yr economi, sgiliau, a chysylltedd. Mae hyn yn cynnwys yr awydd i ddatblygu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru fel dangosydd allweddol i asesu cynnydd ar gynhwysiant digidol. Mae'n rhaid i hyn adeiladu ar asesiad manwl o ystyr a goblygiadau cynhwysiant ac allgáu digidol ar gyfer dinasyddion, aelwydydd a chymunedau yng Nghymru. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, rydym ni'n ceisio datblygu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru yn seiliedig ar nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a Strategaeth Ddigidol

Cymru (2021) a fydd yn gallu cyflawni'r Dangosydd Cenedlaethol Statws Cynhwysiant Digidol a gafodd ei gynnwys gan y Senedd ym mis Rhagfyr 2021.

1.1 Tirwedd cynhwysiant digidol a llythrennedd digidol ehangach

Mae gwaith ymchwil o'r fath yn eistedd o fewn trafodaeth lawer ehangach ynglŷn â sgiliau digidol a llythrennedd digidol. Mae archwilio'r drafodaeth ehangach hon yn mynd y tu hwnt i gwmpas y prosiect a'r adroddiad hwn, ond mae rhanddeiliaid rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol yn adeiladu syniad o lythrennedd digidol a sgiliau digidol yn y gwaith ehangach o lunio polisiâu diwylliannol ac economaidd. Gellir dod o hyd i farn ryngwladol yng ngwaith ac eiriolaeth polisi UNESCO⁸. Gellir dod o hyd i bolisi ar gyfer y DU gyfan yn y Strategaeth Digidol⁹ a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn ogystal â gwaith blaenorol DCMS ar y Strategaeth Llythrennedd Cyfryngau Ar-lein¹⁰. Mae Ofcom wedi cynnal gwaith ymchwil cynhwysfawr ac argymhellion polisi ynghylch Llythrennedd y Cyfryngau yn ehangach gydag adroddiadau blynyddol yn mynd yn ôl hyd at 2007¹¹. O ran pwysigrwydd sgiliau sylfaenol digidol, yn enwedig o safbwynt effaith economaidd, mae gan Llywodraeth y DU Fframwaith Sgiliau Digidol Hanfodol¹². Mae'r Good Things Foundation hefyd wedi cyhoeddi ffigyrau'n ddiweddar ar effaith economaidd cynhwysiant digidol – gweler gwaith y Good Things Foundation¹³. Am drafodaeth ynghylch llythrennedd digidol a data dinasyddion y DU, gweler y prosiect Me and My Big Data blaenorol dan arweiniad Prifysgol Lerpwl¹⁴.

1.2 Prif fewnwelediadau'r ymchwil

- Teimlai aelodau'r cyhoedd fod y diffiniad o'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar gyfer cartrefi trefol â phlant yn briodol ac yn adlewyrchu anghenion yng Nghymru. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar rwystrau i ddiwallu'r anghenion hynny.
- Croesawodd rhanddeiliaid yng Nghymru (ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol) y syniadau am feincnod cenedlaethol ar gyfer cynhwysiant digidol i Gymru. Roeddent yn teimlo y gallai hyn:
 - Gefnogi cydgysylltu ledled Cymru, gan annog Llywodraeth Cymru ac eraill i gymryd mwy o risgiau a chydweithio'n fwy i gyrraedd safon o'r fath
 - Gwella a datblygu eu cynigion digidol fel sefydliadau sydd wedi'u lleoli neu'n gweithio yng Nghymru, gan gyfeirio mwy o adnoddau at gefnogi bywydau digidol y bobl y maent yn eu cefnogi
- Atgyfnerthu ymrwymiad hirdymor i wella cydraddoldeb digidol yng Nghymru, gan hybu blaenoriaethu cynhwysiant digidol yn uwch ar yr agenda polisi a buddsoddiad.
- Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cefnogi diffiniad y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru. Nododd rhanddeiliaid feysydd allweddol i'w hystyried wrth frwr ymlaen â'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru:

- Rhwystrau fforddiadwyedd, yn enwedig yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw presennol
- Rhwystrau seilwaith – seilwaith band eang a data symudol, ond hefyd seilwaith ehangach yn enwedig (ond heb fod yn gyfyngedig i) ardaloedd gwledig yng Nghymru
- Cydraddoldeb o ran y Gymraeg mewn systemau, gwasanaethau, hyfforddiant a chymorth digidol
- Gallu darparwyr a sefydliadau i helpu aelwydydd i gyrraedd y safon
- Pwysigrwydd cydnabod, nodi a mynd i'r afael â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Nodi rolau ar gyfer Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, ac eraill, gan gynnwys dylanwadu ar Lywodraeth ganolog, rheoleiddwyr, a chwmnïau'r DU ar ran Cymru.

2 Dull

2.1 Y ddadl dros Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru.

Fel y nodwyd uchod, mae'r prosiect y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru hwn wedi'i gynnig a'i gaffael gan Lywodraeth Cymru. Mae'n elwa ar brosiect a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield a Nominet i ddatblygu Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol eang ar gyfer y DU gyfan ar gyfer cartrefi â phlant, ac mae'n manteisio arno. Mae'r gwaith hwn ei hun wedi'i selio ar y dull Isafswm Incwm Safonol^{Error! Bookmark not defined}. Mae'r prosiect hefyd yn adeiladu ar hanes o ymchwil i effeithiau anghydraddoldebau digidol gan Brifysgol Lerpwl a Good Things Foundation. Yn bwysig, mae'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru hwn yn ehangu'r asesiad o'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i ystyried cyd-destun cenedlaethol Cymru, anghenion rhanddeiliaid Cymru, a nodau polisi Llywodraeth Cymru.

Mae mwyafrif y gwaith ymchwil ynghylch anghydraddoldebau digidol wedi canolbwyntio ar ddau fater:

1. Anghydraddoldebau o ran mynediad materol i ddyfeisiau digidol (e.e. gliniadur, tabled neu ffôn clyfar), cyswllt â'r we neu ffynonellau gwybodaeth. Mae mynediad *absoliwt* i adnoddau wedi parhau i fod yn ffocws allweddol ym maes polisi, ond nodwyd ers amser fod anghydraddoldebau yn fwy cymhleth na mynediad yn unig.
2. Rhaniadau a gwahaniaethau o ran lefel sgiliau a defnydd. Mae gwaith ymchwil diweddar wedi nodi bod y rhaniad o ran sgiliau yn cyd-fynd â gwahaniaethau perthynol yn safle economaidd-gymdeithasol dinasyddion.

Er bod llawer o waith polisi yn dal heb symud o'r 'lefelau' cyntaf a'r ail, mae gwaith diweddar wedi canolbwyntio ar wahaniaethau mewn canlyniadau 'diriaethol' ac yn ystyried cyfatebiaeth anghydraddoldebau digidol gydag agweddau neu 'feysydd' eraill o anghydraddoldeb^{Error! Bookmark not defined}. Mae'r safbwynt hwn yn dadlau bod angen deall anghydraddoldebau digidol mewn perthynas â'r cyfalaf cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sydd ar gael i'r unigolyn, ac ymgorffori'r byd digidol yn eu bywyd go iawn o ddydd i ddydd. Mae'r astudiaethau hyn yn seiliedig yn bennaf ar arolygon, ac mewn gwirionedd maent yn asesu'r hyn sy'n cael ei ystyried yn allgáu o'r byd digidol gan ddefnyddio dull o'r brig i lawr. Yn y cyfamser, mae astudiaethau achos ansoddol wedi edrych ar bwysigrwydd deall anghydraddoldebau digidol mewn perthynas ag integreiddiad domestig, gwerth y byd digidol i gymunedau gyda statws economaidd-gymdeithasol is neu mewn perthynas â lefelau o gyfalaf cymdeithasol a diwylliannol^{Error! Bookmark not defined}.

Bwriad y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol a'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru, a pholisi Llywodraeth Cymru a nodir uchod, yw symud yr ymchwil a'r polisi yn eu blaen gan ddefnyddio dull newydd sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion a'r gymdeithas er mwyn deall cynhwysiant, allgáu ac anghydraddoldeb digidol. Rydym ni'n gwneud hyn drwy adeiladu ar y fethodoleg Safon Isafswm Incwm a ddatblygwyd gan Brifysgol Loughborough i ddatblygu ein Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol. Mae'r

dull hwn yn ein galluogi i ddysgu'n uniongyrchol o brofiad bywyd dinasyddion. Mewn geiriau eraill, mae'r fethodoleg gadarn hon yn ein galluogi i ddeall:

1. Allgáu digidol fel canlyniad i sawl ffactor sy'n cyfyngu ar allu digidol dinasyddion.
2. Anghydraddoldebau digidol fel materion cymhleth, sy'n berthnasol i gyd-destun amser a chymdeithasol, ac sydd â chysylltiad dwfn gydag agweddau croestoriadol.
3. Pa bolisïau ac ymyriadau cynhwysiant digidol sy'n mynd i'r afael orau â'r ffactorau a'r cyd-destunnau sy'n cyfyngu ar allu digidol dinasyddion.

2.2 Adeiladu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar y fethodoleg Safon Isafswm Incwm

Mae'r datblygiad o MDLS ar gyfer Cymru a'r DU yn defnyddio'r fethodoleg Safon Isafswm Incwm¹⁵ sy'n seiliedig ar gytundeb wrth drafod materion yn ymwneud â chynhwysiant digidol. Mae'r fethodoleg Safon Isafswm Incwm yn defnyddio dulliau cyfranogol i ddatblygu isafswm cymdeithasol yn seiliedig ar gydsyniad y cyhoedd ac wedi'i ymwreiddio i hynny. Bydd y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol a'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru felly yn defnyddio diffiniadau o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gynhwysiant neu'n allgáu digidol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, yn hytrach na dull o'r brig i lawr.

Mae'r Safon Isafswm Incwm yn seiliedig ar y gred y dylai diffiniad a disgrifiad o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn safon ofynnol ar gyfer byw fod wedi'i ymwreiddio ym mhrofiadau'r bobl o fewn cymdeithas benodol. Mae'r dull yn anelu at adnabod isafswm safon bywyd a dderbynnir yn gymdeithasol; mae'n 'isafswm' yn yr ystyr ei fod yn cyfeirio at trothwy lle na ddylai neb fynd oddi tano; mae'n 'derbyniol yn gymdeithasol' yn yr ystyr bod y trothwy'n cael ei bennu gan gymdeithas; ac mae'n cwmpasu cyfranogiad a chysylltiadau gyda chymdeithas, gan gydnabod er ei bod yn bosibl goroesi ar safon is, nid yw hon yn safon urddasol na derbyniol. O fewn y dull Safon Isafswm Incwm, mae safonau byw gofynnol yn cael eu gweld fel adlewyrchiad o'r gwerthoedd mewn cymdeithas benodol.

Gan ddilyn y Safon Isafswm Incwm, mae ein dull o sefydlu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn canolbwyntio ar y diffiniad o'r hyn sydd ei angen o safbwynt 'digidol' er mwyn bod yn rhan o gymdeithas yn y DU. Yn yr un modd ag y mae'r Safon Isafswm Incwm yn pennu 'incwm cyfranogi' sy'n ofynnol er mwyn sicrhau isafswm o ran safon byw, bydd y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn sefydlu 'trothwy cyfranogiad digidol', ac o dan y trothwy hwnnw, nid yw unigolion yn meddu ar bopeth sydd arnynt ei angen i gyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau dydd i ddydd i DU.

Nodweddion allweddol y fethodoleg yw:

1. Camau ailadroddus o grwpiau trafod yn cynnwys aelodau'r cyhoedd o ystod o fathau o gartrefi penodol. Ar bob cam, bydd grwpiau'n cael eu recriwtio o'r newydd yn fwriadol i brofi ac ehangu ar gonsensws y cyhoedd.
2. Datblygu diffiniad a rennir gyda'r cyhoedd a ddefnyddir fel sylfaen i drafodaeth. Gwneir hyn i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin pan fo aelodau o'r cyhoedd yn trafod ac yn llunio 'safon' ofynnol.

3. Datblygu rhestr gynhwysfawr o nwyddau, gwasanaethau, sgiliau a gallu gofynnol i unigolion ac aelwydydd er mwyn cyrraedd y safon.
4. Casglu data ansoddol cyfoethog trwy hwyluso trafodaethau i greu consensws a rhesymeg a drafodir sy'n egluro cynhwysiant neu eithriad o ran nwyddau, gwasanaethau a sgiliau.

2.3 Gallu: Deilliannau i unigolion a chymunedau

Mae'r dull Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn adeiladu ar waith Townsend¹⁶ ac mae'n seiliedig ar fesurau cymharol a chydysyniol yn hytrach na gofynion hanfodol neu gyffredinol. Fodd bynnag, gallwn weld gwerth yn null galluogrwydd Nussbaum a Sen¹⁷, sy'n golygu derbyn dau honiad normadol craidd. Yn y lle cyntaf, mae'r rhyddid i sicrhau llesiant yn hollbwysig o safbwynt moesegol. Yn ail, dylid deall rhyddid i sicrhau llesiant o safbwynt gallu pobl – hynny yw eu cyfleoedd gwirioneddol i wneud a bod yr hyn y mae ganddynt reswm i'w werthfawrogi. Mae'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol felly yn crisialu tair cydran ganolog sy'n diffinio galluoedd digidol:

1. Gwybodaeth a sgiliau sy'n galluogi penderfyniadau ynghylch pa nwyddau a gwasanaethau y gellir cael mynediad iddynt a sut i'w defnyddio.
2. Y gallu materol i fedru fforddio neu gael mynediad i nwyddau a gwasanaethau digidol ar lefel addas.
3. Isadeiledd ac amgylchedd digidol sy'n mynnu'r mathau o nwyddau a gwasanaethau y gellir eu cefnogi yn unrhyw leoliad penodol ac yn ôl capasiti darparwyr.

Mae'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol felly wedi'i greu allan o becyn o "nwyddau, gwasanaethau a sgiliau digidol" sy'n hwyluso gallu digidol unigolyn i allu byw bywyd y gall ei werthfawrogi a'i fyw'n effeithiol.

2.4 Diffiniad presennol o'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol

Y diffiniad cytunwyd o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yw:

'Y diffiniad cychwynnol o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ym Mhrosiect Nuffield y DU yw: 'Mae safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol yn cynnwys cael mynediad i'r rhynggrwyd, offer digonol a digon o hyfforddiant a chymorth, ond mae'n fwy na hynny. Mae'n golygu gallu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu gyda chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus.' Defnyddiwyd y diffiniad hwn fel man cychwyn yn y drafodaeth gyda rhanddeiliaid o Gymru (gweler adran 3.4 isod).'

Defnyddiwyd y diffiniad hwn fel man cychwyn yn y drafodaeth gyda rhanddeiliaid o Gymru (gweler adran 3.4 isod).

3 Adeiladu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru

3.1 Cwestiynau ymchwil allweddol yn ymwneud â Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru

Beth, felly, yw'r pecyn lleiaf o nwyddau, gwasanaethau a sgiliau digidol sydd eu hangen ar ddinasyddion Cymru er mwyn sicrhau ansawdd bywyd digidol, gan gynnwys cyfranogiad cymdeithasol? Beth yw'r goblygiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol o beidio â chael y pecyn lleiaf hwn? Sut mae'r anghenion, y gallu a'r goblygiadau hyn yn amrywio ar draws demograffig, lleoliadau a chyfnodau bywyd y dinasyddion a'r aelwydydd?

Archwiliwyd y materion hyn drwy amrywiaeth o weithgareddau cydgysylltiedig a amlinellir yn yr adroddiad hwn:

- Adolygiad o lenyddiaeth academiaidd a pholisi newydd sy'n berthnasol i gyd-destun cynhwysiant digidol yng Nghymru.
- Cyfweiliadau ansoddol manwl gyda sefydliadau rhanddeiliaid i edrych sut mae gofynion yn amrywio o ran Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru, a'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar y gallu i gyflawni Safon o'r fath.
- Adolygiad Delphi, yn seiliedig ar ddsbarthiad a dadansoddiad o arolwg, a gynlluniwyd i grynhoi canfyddiadau allweddol cyfweiliadau â rhanddeiliaid, a weinyddwyd ymhlith sefydliadau cyfranogol a sefydliadau eraill o fewn y sector (gweler yr Atodiad) iddynt adolygu a gwneud sylwadau ar y canfyddiadau.
- Defnyddio'r fethodoleg arloesol Safonau Isafswm Incwm, sydd eisoes wedi ennill ei blwyf, i gynnal asesiad cyfranogol o ganfyddiad pobl Cymru o ddinasyddiaeth ddigidol ac anghenion digidol. Rydym ni'n adeiladu ar Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU i ddatblygu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru gan ganolbwyntio ar anghenion aelwydydd gyda phlant yng Nghymru.

Bydd elfennau ychwanegol o'r ymchwil yn darparu archwiliad manwl pellach (yn dibynnu ar gyllid dilynol) trwy:

- Adeiladu ar yr arolygon a gwerthusiadau ystadegol a daearyddol y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn y DU i edrych ar gyfatebiaeth Safon y DU a Chymru gyda mesuryddion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a digidol eraill.
- Cynnal cyfweiliadau ansoddol manwl gyda dinasyddion o Gymru nad ydynt yn bodloni'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru, gan edrych ar brofiadau a goblygiadau methu â bodloni gofynion digidol a'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar y gallu i gyrraedd Safon Ofynnol yng Nghymru.

3.2 Gweithgareddau ymchwil

Ym mis Chwefror 2022, bu'r tîm yn cyfarfod gydag aelodau o Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, rhwydwaith o sefydliadau sy'n cwrdd bob chwarter i drafod cynhwysiant digidol yng Nghymru (gweler Atodiad 1). Ym mis Mawrth, bu'r tîm hefyd yn cynnal adolygiad i edrych ar y llenyddiaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn y maes. Rhwng mis

Mai a Mehefin 2022 bu'r tîm yn trefnu ac yn cynnal cyfweiliadau manwl Delphi gyda rhanddeiliaid allweddol o bob cwr o'r dirwedd ddigidol yng Nghymru sy'n gweithio i fynd i'r afael â materion cynhwysiant digidol yng Nghymru. Adroddiad interim yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022. Dilynwyd hyn gan arolwg Delphi i adolygu canfyddiadau terfynol y cam hwn o'r prosiect. Drwy gydol yr hydref cwblhaodd y tîm waith maes Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU a chynhaliwyd sesiynau grŵp ychwanegol Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru i archwilio diffiniad a chynnwys Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol llawn i gartrefi Cymru.

3.2.1 Cyfweiliadau Delphi gyda Rhanddeiliaid

Roedd hyn yn cynnwys llunwyr polisi (e.e. Ofcom), darparwyr gwasanaeth (e.e. BT), sefydliadau rhanbarthol (e.e. Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru) a grwpiau neu elusennau lleol (gweler adran 8: Atodiad 2). Cynhaliwyd 11 cyfweiliad. Parodd y cyfweiliadau oddeutu awr a dechreuodd y cyfweiliadau drwy egluro moeseg y prosiect i'r cyfranogwyr a derbyn eu caniatâd. Roedd y cyfweiliadau lled-strwythuredig hyn yn dilyn strwythur dair rhan gyda chwestiynau i ganfod gwybodaeth ynglŷn â'r materion canlynol:

1. Diffiniad o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru a'i chydannau.
2. Gweithredu polisi'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru.
3. Gweithredu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru yn ymarferol fel rhan o ymyriadau cynhwysiant digidol. (Gweler Atodiad 3 am y ddogfen ganllaw ar gyfer y cyfweiliadau yn ei chyfanrwydd).

Cafodd y cyfweiliadau eu trawsgrifio a'u dadansoddi'n thematig gan ddefnyddio Nvivo, gan mai dyma'r plattform a ffafriwyd ar gyfer dadansoddiad ansoddol. Roedd rhan o'r cyfweiliad yn cynnwys darparu ein Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru i rhanddeiliaid a gofyn am eu barn ynghylch ei effeithiolrwydd.

3.2.2 Arolwg Delphi

Yn dilyn y cyfweiliadau, cynhaliwyd arolwg Delphi trwy ddylunio, dosbarthu a dadansoddi arolwg ar-lein yn amlinellu canfyddiadau allweddol y cyfweiliadau a gwahodd ymatebion gan sefydliadau cyfranogol a rhanddeiliaid eraill yn y maes hwn. Casglwyd cyfanswm o 23 o ymatebion (gweler Atodiad 2 ar gyfer tabl o'r sefydliadau a ymatebodd). Roedd y sefydliadau hyn yn cwmpasu'r gweithgareddau a'r cymunedau cynhwysiant digidol canlynol:

- Dosbarthu dyfeisiau digidol a phecynnau data
- Darparu hyfforddiant sgiliau digidol
- Darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol
- Cynnal ymchwil cynhwysiant digidol
- Datblygu apiau a phecynnau cymorth
- Cefnogi ysgolion a myfyrwyr
- Cefnogi gweithwyr iechyd proffesiynol digidol, gofawyr, a gofawyr ifanc
- Cefnogi pobl sy'n gwneud cais ar-lein am bethau fel budd-daliadau, cymorth iechyd meddwl a lles
- Creu cymunedau gofal cysylltiedig

- Helpu ceiswyr gwaith
- Cefnogi pobl oedrannus a phobl ag anableddau
- Cefnogi cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- Ymgynghori ar brosiectau, cydweithio rhwng sefydliadau a chefnogi cyrff y llywodraeth

3.3 Canfyddiadau allweddol o'r llenyddiaeth

Ochr yn ochr â'r adroddiadau cyfredol ar gynhwysiant digidol gan Lywodraeth Cymru, ceir rhywfaint o lenyddiaeth academaidd yn canolbwyntio'n benodol ar allgáu digidol yng Nghymru. Mae'r gwaith sydd ar gael yn trafod nifer o bynciau. Yn y lle cyntaf, ceir rhywfaint o waith ar allgáu digidol a grwpiau ymylol yng Nghymru. Er enghraifft, bu Tsatsou et al¹⁸ yn archwilio rôl Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu er mwyn cefnogi cymunedau lleiafrifol yng Nghymru. Mae'r papur yn dadlau bod Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu a'r We yn cael eu hystyried gan y cymunedau hyn yn allweddol er mwyn hybu cysylltedd cymunedol mewn cymunedau cyfoes, a bod cymunedau lleiafrifol yng Nghymru mewn perygl o allgáu cymdeithasol a digidol, ond mae Higgs a Berry¹⁹ yn nodi bod diffyg tystiolaeth eang ar ddefnydd a rôl Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn cymunedau ymylol yng Nghymru. Mae nifer o bapurau yn mynd i'r afael â'r defnydd o gyfryngau digidol ac iechyd. Mae Gann²⁰ yn nodi cysylltiad cryf rhwng allgáu cymdeithasol ac afiechyd yng Nghymru. Mae'n nodi mai'r rhai hynny sydd leiaf tebygol o fod ar-lein (gan gynnwys pobl hŷn a phobl anabl) yw'r union rai sy'n profi baich afiechyd ar ei fwyaf. Yn y cyd-destun iechyd hwn, mae Gann yn dadlau bod gan Gymru heriau o ran cynhwysiant digidol, gan gynnwys amddifadedd cymdeithasol, poblogaeth sy'n heneiddio a chysylltedd band eang gwael mewn ardaloedd gwledig anghysbell. Bu Wu et al²¹ yn edrych ar rôl TGCh o ran cefnogi dinasyddion gyda nam synhwyraidd yng Nghymru. Daethant i'r casgliad fod hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn hanfodol er mwyn helpu dinasyddion Cymru sydd â nam synhwyraidd i ddeall yr ystod lawn o wasanaethau rhyngweithiol sydd ar gael ar blatfformau digidol. Yn yr un modd, daeth adroddiad Davies et al²² ar arolwg o 1,252 o ddinasyddion Cymru (16+) i'r casgliad fod anghydraddoldeb o ran mynediad i'r we yn y cartref, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau iechyd. Mae hyn yn dal i'w weld yng Nghymru, gyda llai o fynediad ymysg poblogaethau hyn, poblogaethau mwy difreintiedig a'r rhai sy'n dioddef iechyd gwael. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae ymgysylltu gyda thechnoleg ddigidol i gefnogi a monitro iechyd yng Nghymru yn weithgaredd cyffredin. Roedd cyfran uwch o'r rhai gyda llesiant meddyliol is yn defnyddio technoleg ddigidol i ganfod cymorth emosiynol ar-lein. Amlygodd yr arolwg cenedlaethol hwn fod 34% o boblogaeth Cymru wedi defnyddio technoleg i gael diagnosis, 16% ar gyfer rheoli cyflwr hirdymor a 9% i reoli meddyginiaethau.

Yn ôl y disgwyl, codwyd materion yn ymwneud â gwahaniaethau trefol-gwledig yn ystod y gwaith maes. Buom yn edrych ar lenyddiaeth o'r DU a llenyddiaeth ryngwladol yn trafod allgáu digidol. Mae Salemink et al²³ yn cyfeirio at y gwrthfynegiad fod ardaloedd gwledig ar draws y byd angen gwell cysylltiad digidol i wneud iawn am eu pellenigrwydd, ond mai nhw sy'n cael eu gwasanaethu waethaf mewn gwirionedd. Mae Philp et al²⁴ a Townsend et al²⁵ yn dadlau dros yr angen i gau'r bwlch trefol-gwledig, yn enwedig trwy dechnolegau newydd i fynd i'r afael â'r cymunedau mwyaf anghysbell.

Ond mae Malecki²⁶ yn nodi nad yw mynediad yn ddigon ar ei ben ei hun, a bod angen datblygiad cysylltiedig o gyfalaf dynol lleol – sgiliau ac arbenigedd. Bu Norris²⁷ yn archwilio'r rhaniad digidol trefol-gwledig yn y DU gan gyfeirio at fwlch ehangach yn Nghymru nac mewn ardaloedd eraill o'r DU. Er hynny, fel y nodir isod, mae data diweddar gan Ofcom ac ymatebion cyfweiliad gan Ofcom a BT yn nodi bod y bwlch yn lleihau. Mae llawer o'r gwaith rhyngwladol yn y maes hwn yn canolbwyntio ar y buddion mewn meysydd allweddol megis ffermio yn y de a gofal iechyd fel y nodir yng nghydestun Cymru uchod – yn enwedig o ran defnydd o ffonau symudol. Mae Roberts et al²⁸, Ashmore²⁹, a Young³⁰ hefyd yn dadlau y gallai cynyddu cynhwysiant digidol mewn ardaloedd gwledig gefnogi gwytnwch cymunedau mewn perthynas â chyfranogiad economaidd a chymdeithasol. Yn olaf, ceir rhywfaint o lenyddiaeth yn trafod “pentrefi clyfar” – sy'n debyg i ddinasoedd clyfar – yn dadlau bod angen gwell cysylltedd digidol i ganiatau ar gyfer gweithio o bell ac i gyfyngu ar ddiblogi cymunedau gwledig lle mae dinasyddion yn symud allan i chwilio am well cyfleoedd gwaith³¹.

3.4 Canfyddiadau allweddol o gyfweiliadau Delphi ac arolwg gyda rhanddeiliaid

Mae rhanddeiliaid wedi croesawu'r syniad o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru ac wedi darparu gwybodaeth ynglŷn â buddion posibl safon o'r fath a heriau posibl ynghylch ei weithrediad. Maen nhw wedi nodi bod y diffiniad cyfredol o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn gadarn (gweler adran 2.4 uchod), ond mae'n bwysig ystyried meysydd allweddol a godwyd gan rhanddeiliaid wrth symud ymlaen. Mae'r negeseuon allweddol canlynol wedi codi o'n dadansoddiad thematig o gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid.

3.4.1 Arsylwadau cyffredinol

Ar gyfer sefydliadau lleol yng Nghymru, roedd tri mater yn codi dro ar ôl tro fel materion pwysig yn ymwneud â Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru:

1. Mynediad gwledig (anghysbell) – diffyg mynediad band eang a/neu ffôn symudol da i rai cymunedau.
2. Yr Iaith Gymraeg – yn enwedig mynediad i nifer o wasanaethau a systemau nad ydynt ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.
3. Rôl Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, a sefydliadau wedi'u lleoli yng Nghymru o ran mynd i'r afael â phroblemau allgáu digidol.

Byddem yn nodi nad oedd y sefydliadau cenedlaethol megis BT ac Ofcom yn ystyried y mater cyntaf yn fater penodol i 'Gymru'. Roedden nhw'n cyfeirio at broblemau a lefelau tebyg o allgáu o ganlyniad i ddiffyg band eang mewn rhannau eraill o'r DU, megis yr Alban, Ardal y Llynnoedd a De Orllewin Lloegr. Roedden nhw'n cyfeirio at atebion technegol tebyg gan gynnwys cyflwyno band eang ymhellach, 'Darpariaeth Symudol a Rennir', a thechnoleg lloeren.

Lle bônt yn gweld rôl 'Gymreig' bosibl (neu o leiaf rôl gwlad ddatganoledig) yn y mater hwn, roeddent yn canolbwyntio ar y cydbwysedd rhwng gweithgaredd cyhoeddus/preifat er mwyn cyrraedd y cymunedau hynny lle'r oedd angen atebion technegol ychwanegol. O ran Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru, gallai'r cwestiwn ofyn beth

fyddai rôl Llywodraeth Cymru, neu lywodraeth leol, neu hyd yn oed ddarparwyr tai wrth gefnogi'r cysylltiadau hyn. Gallai hyn fod drwy ddarparu cymhorthdal ar gyfer costau (e.e. mynediad i dechnoleg lloeren) neu drwy gynigion gwasanaethau eraill (e.e. tai cymdeithasol). Cafwyd cwestiwn ynghylch lefel gweithgarwch Llywodraeth genedlaethol/leol ynghyd â pha mor gyflym y byddai modd cyflawni atebion ar gyfer y lleoliadau mwyaf anhysbell. Roedd llawer o hyn yn ymwneud â'r Gwarant Isafswm Gwasanaeth (sydd yn 10MB ar hyn o bryd). Mae ein gwaith presennol ar Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn y DU yn awgrymu y gallai'r lefel gwasanaeth hwn fod tipyn yn is na'r hyn y mae dinasyddion y DU – gan gynnwys cyfranogwyr o Gymru – na'r hyn sy'n ddigonol i fodloni'r diffiniad o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol a nodir uchod (adran 2.4). Yn ehangach, amlygodd BT fod grwpiau allweddol o'r rhai sydd wedi'u hallgáu o'r byd digidol – segmentau cwsmeriaid – yn debyg ar draws y DU: y rhai heb fynediad neu fynediad cyfyngedig i fand eang, prinder sgiliau digidol, pobl hŷn nad ydynt yn defnyddio technoleg ddigidol, a phobl gyda diffyg hyder digidol. Mae nifer perthynol y grwpiau hyn yn amrywio yn ôl rhanbarth neu gymuned.

Mae hyn yn codi cwestiwn diddorol o ran Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru – i ba raddau y gellir gweld gwerth allweddol y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru mewn gwahaniaethau rhwng y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn y DU neu ymateb gweinyddiaeth ddatganoledig Cymru i hynny? Yn benodol y gallu gan sefydliadau a llywodraeth yng Nghymru i ddefnyddio adnoddau, rheoliadau, deddfwriaeth a rhanddeiliaid lleol i fynd i'r afael ag allgáu o'r byd digidol a sicrhau bod holl ddinasyddion Cymru yn gallu cyrraedd y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru. Fel y byddwn yn trafod isod, mae ein canfyddiadau'n dangos bod yr anghenion a nodwyd yn yr adroddiad yn cyd-fynd â rhai'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn y DU ond bod rhanddeiliaid a theuluoedd wedi nodi'r heriau penodol o ddiwallu'r anghenion hynny yng nghyd-destun Cymru. Fel y byddwn yn trafod isod, mae ein canfyddiadau'n dangos bod yr anghenion a nodwyd yn y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru yn cyd-fynd â rhai Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU gyfan ond bod rhanddeiliaid a theuluoedd wedi nodi'r heriau penodol o ddiwallu'r anghenion hynny yng nghyd-destun Cymru. Mae ein cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid hyd yn hyn yn nodi y bydd yn gyfuniad o agweddau penodol ar y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru ac ymateb y wlad ddatganoledig i'r Safon honno.

3.4.2 Gallai Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru newid y ffordd y mae sefydliadau'n gweithio

“Rwy'n credu bod *cyflwyno* safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol yn mynd i newid y ffocws yn gyfan gwbl”

Arweinydd elusen sy'n darparu cymorth i bobl anabl

Bu rhanddeiliaid yn trafod sut y gallai Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru effeithio ar eu harferion. Mae canfyddiadau adolygiad Delphi yn awgrymu bod mwyafrif yr ymatebwyr (18 o 23) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai cael Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru yn helpu i yrru materion yn ymwneud ag anghydraddoldebau digidol i frig blaenoriaethau eu sefydliad. Fel y trafodwyd yn y cyfweiliadau, awgrymodd y cyfranogwyr y gallai'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru eu helpu i:

- wella a datblygu eu cynigion digidol
- rhoi mwy o adnoddau tuag at gefnogi bywydau digidol eu cleientiaid
- cydgrynhoi ymrwymiad hirdymor pendant i wella cydraddoldeb digidol
- chwalu rhwystrau sefydliadau
- eu hannog i gymryd mwy o risg ac i weithio ar y cyd i gyflawni safon o'r fath

Fel sefydliadau a fyddai'n rhan allweddol o ran polisi a gweithredu, gallai'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru eu helpu i annog cleientiaid sydd wedi'u hallgáu o'r byd digidol i ymgysylltu gyda'r gefnogaeth sydd ar gael ac i fanteisio ar fwy o gyfleoedd digidol. Roedden nhw'n nodi y byddai defnyddio Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru yn cynnig budd hirdymor o allu symud mwy o wasanaethau i fod yn ddigidol. Byddai hyn yn helpu i leihau costau i'r rhan fwyaf o sefydliadau. Yn ogystal, cydnabu ymatebwyr adolygiad Delphi y byddai gweithredu Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru hefyd yn dod â heriau, yn benodol i lunwyr polisi.

Datgelodd data a gasglwyd drwy gwestiwn penagored yr heriau canlynol:

- Mae anghydraddoldebau digidol a mynediad digidol yn dal i gael eu gweld fel ôl-ystyriaeth yn y sectorau preifat a chyhoeddus, lle mae diffyg gwybodaeth am allgáu digidol.
- Mae sefydliadau'n aml yn ei chael hi'n anodd cael cyllid i ymgymryd â mentrau sy'n hyrwyddo cynhwysiant digidol.
- Mae angen i unrhyw weithrediad gymryd i ystyriaeth amrywiaeth poblogaeth Cymru (e.e., y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg).
- Mae angen i ni herio'r dybiaeth bod rhai grwpiau yn fwy galluog ac wedi'u hysgogi'n ddigidol nag eraill a bod rhai grwpiau eraill yn cael eu hallgáu'n gynhenid.
- Mae'n bwysig annog cwmnïau preifat i gydymffurfio a chefnogi'r safon.
- Mae'r dirwedd ddigidol yn esblygu'n barhaus, gan ofyn am hyblygrwydd a'r gallu i addasu.
- Mae angen llawer mwy o gyfathrebu dwy ffordd a chydweithio rhwng cyrff llywodraeth/sector cyhoeddus ac eraill.
- Ni fyddai angen llawer o hyfforddiant digidol ar bobl pe bai gwasanaethau a chynhyrchion digidol yn cael eu dylunio mewn ffyrdd haws i bobl eu defnyddio.
- Mae'n anodd cyfathrebu â'r cyhoedd a rhoi gwybod i bobl ble y gallant gael cymorth o ran cyrchu a defnyddio technolegau digidol.

Gan adeiladu ar y pwynt olaf, dangosodd canfyddiadau'r cyfweiliadau y bydd yn bwysig cyfathrebu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn glir a chael pobl i gymryd diddordeb:


“Nid yw'r broblem yn dechrau gydag addysg ddigidol a gwybodaeth a hyder, mewn ffordd, mae'n dechrau'n fwy eang na hynny, fel teimlad o gyffro ynglŷn â'r digidol... Mae'n rhywbeth i fod yn gyffrous iawn yn ei gylch, ac nid yn rhywbeth i'w ofni, gallai fod yn beth da, a gallai newid y byd, mae'n rhaid i ni ei groesawu.”

Pennaeth darparwr band eang yn Ne Cymru

Mae'r cymunedau a'r unigolion y byddai Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru yn eu cyrraedd yn amrywiol iawn. Mae nifer o wahanol resymau pam mae


pobl yn cael eu hallgáu o'r byd digidol, gan gynnwys o ddewis. Nododd rhanddeiliaid fod pryderu am risg neu oruchwyliaeth, diffyg hyder a/neu sgiliau digidol, neu hyd yn oed diffyg diddordeb neu wybodaeth am ddarpariaeth ddigidol oll yn gallu rhwystro mynediad. Byddai cyfathrebu gwybodaeth am Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru yn glir, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn gallu cael ei ddefnyddio i helpu i gyfathrebu am bwysigrwydd cysylltedd digidol ym mywydau pawb, yn ogystal ag i godi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb am y mathau o gyfleoedd a buddion y mae pobl yn eu colli.

O'r arolwg roedd consensws eang ymhlith y cyfranogwyr bod ein diffiniad o'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn werthfawr ac yn amserol, tra hefyd yn berthnasol i'r DU ac yn benodol i Gymru. Roedd 18 o ymatebwyr allan o 23 (h.y., bron i 80%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod diffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU yn gweithio'n dda ar gyfer diffinio beth yw'r safon byw digidol gofynnol ar gyfer cartref yng Nghymru. Er nad oedd pedwar ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno, dim ond un oedd yn anghytuno.



Ffigur 1: Mae'r diffiniad hwn yn gweithio'n dda i ddiffinio'r safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol mewn cartref

Roedd 17 allan o 23 o ymatebwyr (h.y., mwy na 70%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai diffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU yn gweithio'n dda yng nghyd-destun Cymru. Er nad oedd pump o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno, dim ond un ymatebydd oedd yn anghytuno.



Ffigur 2: Byddai'r diffiniad hwn yn gweithio'n dda yng nghyd-destun Cymru


Pan ofynnwyd a fyddai angen datblygu'r diffiniad neu sut y gallai fod angen ei ddatblygu i'n harolwg, amlygodd ymatebwyr y pwyntiau canlynol:

- **Er mwyn gwneud hyfforddiant (sydd ymhlyg mewn "cymorth") yn glir** - fel y byddwn yn trafod yn ddiweddarach yn adran 4, gwneir hyn yn glir ym manylion Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol llawn y DU a Chymru nad oedd ar gael ar adeg yr arolwg.
- **Sicrhau bod y diffiniad hefyd ar gael yn y Gymraeg**
- **Cynnwys fforddiadwyedd** - fel y nodwn yn ein trafodaeth am Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU a'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru a drafodwyd isod yn adran 4, nid ydym yn cynnwys fforddiadwyedd yn Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol. Yn yr un modd â MIS, daw fforddiadwyedd i

mewn pan fydd rhywun yn asesu sut y bydd cartref yn *cyflawni* Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol. Gall atebion gynnwys gwneud gwasanaethau'n fforddiadwy – fel tariff cymdeithasol ar gyfer mynediad band eang – neu drwy ddarparu mynediad cyhoeddus. Mae fforddiadwyedd yn ffactor wrth ddarparu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol.


- **I gymryd i ystyriaeth anghenion pobl ag anableddau (e.e., colli golwg)** – diffinnir Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU a'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru yn nhermau anghenion aelwydydd â phlant, gyda'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru yn cynnwys trafodaeth ar gyd-destunau gwledig ac ieithyddol. Fel gyda MIS y mae'r gwaith hwn yn seiliedig arno, gallwn ddefnyddio'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru fel llinell sylfaen ar gyfer gwaith pellach i archwilio anghenion ychwanegol grwpiau a chymunedau eraill fel y rhai sy'n delio ag anableddau. Bydd ail gam y prosiect presennol hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn ar gyfer cymunedau Cymraeg allweddol.
- **I egluro y dylai “rhyngwyd hygyrch” hefyd fod yn ddibynadwy, ac y dylai “offer” fod yn hygyrch** - rydym yn cymryd hyn fel yr awgrymir yn y diffiniad ac ym manylion llawn y DU a'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru (gweler adran 4 isod) rydym yn trafod manylion dibynadwyedd a chyfyngiadau mynediad.
- **Er mwyn egluro sut y disgwylir i aelwydydd “gyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus”** - rhoddir y manylion hyn isod ym manylion Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol llawn y DU a Chymru nad oedd ar gael ar adeg yr arolwg.
- **I fod yn ymwybodol o'r ffaith bod canolbwyntio ar aelwydydd yn allgau rhai unigolion (e.e., pobl ddiartref)** - Eto, gallwn ddefnyddio'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru fel llinell sylfaen ar gyfer gwaith pellach i archwilio anghenion ychwanegol grwpiau a chymunedau eraill fel y rhai digartref. Fel y nodwyd uchod, bydd ail gam y prosiect cyfredol hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn ar gyfer cymunedau Cymraeg allweddol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg (18 allan o 23) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai cael Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru yn helpu i yrru materion yn ymwneud ag anghydraddoldebau digidol i frig eu sefydliadau nhw.



Ffigur 3: Byddai cael Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru yn helpu i osod materion anghydraddoldebau digidol ar frig blaenoriaethau fy sefydliad

Yn yr un modd, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (21 allan o 23) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai gweithredu Y Safon Ofynnol Ar Gyfer Bywyd Digidol i Gymru yn helpu gwaith eu sefydliadau o ran cefnogi cynhwysiant digidol.



Ffigur 4: Byddai gweithredu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru yn helpu gwaith fy sefydliad i gefnogi cynhwysiant digidol

Pan ofynnwyd pa heriau y gallai sefydliad eu hwynebu wrth weithio gyda'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru, rhestrwyd nifer o faterion allweddol gan gynnwys:

- Galw cynyddol am adnoddau (e.e., staff, hyfforddiant, cyllid, amser, ac ati)
- Dylai cyllid fod yn gyson ac yn hirdymor
- Mesur ac adrodd ar ganlyniadau
- Dylai sefydliadau cydraddoldeb gymryd rhan lawn
- Dylid dylunio gwasanaethau gyda hygyrchedd mewn golwg (e.e. anabledd, iaith, oedran, ac ati).

3.4.3 Mae fforddiadwyedd yn agwedd bwysig o ran hygyrchedd

“O ran yr agwedd costau a fforddiadwyedd, nid band eang yn unig yw hynny ar hyn o bryd, mae'n golygu trydan hefyd. Os nad ydych yn gallu talu eich bil trydan, ni allwch ddefnyddio'r rhyngwyd”

Arweinydd polisi ar ran darparwr tai cymdeithasol

O ystyried yr argyfwng costau byw presennol, disgwylwyd y byddai fforddiadwyedd yn dod yn bwysicach. Wedi dweud hynny, fel y nodwyd yn y cyflwyniad, mae Covid-19 a'r argyfwng costau byw wedi amlygu, ac o bosibl wedi gwaethygu problemau presennol sy'n sylfaen i anghydraddoldeb digidol. Mae hyn yn bryder ar draws yr ystod o fathau o aelwydydd, incwm aelwydydd, ac amgylchiadau cyflogaeth dinasyddion yng Nghymru a'r DU.

Roedd yr holl ymatebwyr a gymerodd ran yn arolwg Delphi naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod fforddiadwyedd yn fater allweddol i'w ystyried wrth ystyried mynediad i dechnolegau digidol gwahanol boblogaethau yng Nghymru. Roedd yr holl ymatebwyr naill ai'n cytuno (4 allan o 23) neu'n cytuno'n gryf (19 allan o 23) fod fforddiadwyedd yn fater allweddol i'w ystyried wrth ystyried mynediad at dechnolegau digidol.

Mae'r rhanddeiliaid y buom ni'n eu cyfweld yn gweithio'n aml gyda chymunedau ac unigolion sy'n aml yn methu â chael gafael ar ddyfeisiau neu gysylltiad band eang cyflym sy'n angenrheidiol i ddefnyddio dyfeisiau i'w potensial llawn, yn ogystal â phrofi anawsterau ariannol mewn meysydd eraill. Pan nad yw gofynion sylfaenol ar gyfer bywyd a phŵer yn cael eu bodloni, mae cysylltiad â'r we yn cael ei ystyried yn foethus ac yn rhywbeth y gellir dewid peidio ei gael, ac roedd nifer o randdeiliaid yn sôn am yr angen am dariff cymdeithasol neu gymhorthdal. Er bod tariffau cymdeithasol ar gael, mae data cyfredol Ofcom yn dangos nad yw llawer o aelwydydd yn ymwybodol o'r opsiwn hwn neu nad ydynt yn credu ei fod wedi'i dargedu atynt nac yn briodol iddynt³².

Yn gyffredinol, amlygodd ein rhanddeiliaid ac ymatebwyr i'r arolwg na allai llawer o aelodau'r cymunedau fforddio mynediad band eang rhesymol fel a gynigir ar hyn o bryd gan y prif ddarparwyr gwasanaethau hyd yn oed o dan y tariffau cymdeithasol presennol. Yn enwedig o'i gyfuno â'r argyfwng costau byw ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd fod gan rai grwpiau, er enghraifft pobl ag anabledau, gostau ychwanegol ar gyfer offer digidol arbenigol ar ben hanfodion dyfeisiau safonol a band eang.

I rai, mae canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau'n llai pwysig na'r ddarpariaeth faterol sylfaenol, oherwydd heb fynediad dibynadwy i fand eang a dyfeisiau cysylltiedig, nid yw pobl yn gallu defnyddio unrhyw sgiliau y maen nhw wedi'u dysgu yn y byd go iawn. Gallai rhywun fynychu cwrs mewn llyfrgell er enghraifft, ond os nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur yn y cartref ni fyddant yn gallu ymarfer y sgiliau hynny.

Roedd rhai ymatebwyr yn codi pryderon fod Cymru yn "arafach" o ran cynhwysiant digidol am ystod o resymau, ond yn enwedig lefelau amddifadedd mewn rhai cymunedau yng Nghymru. Felly, roedden nhw'n teimlo bod fforddiadwyedd yn enwedig o berthnasol yng Nghymru, gan fod Cymru y tu ôl i rannau eraill o'r DU yn economaidd gyda nifer o ardaloedd difreintiedig a niferoedd uchel o blant yn byw mewn tlodi. Nid mater i'r cyhoedd yn unig yw hyn, fodd bynnag, gan fod rhanddeiliaid eu hunain yn gallu cael trafferth i sicrhau cyllid i ddarparu'r lefelau cymorth gorau, ac mae angen i'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru ystyried fforddiadwyedd ei weithredu o safbwynt darparwyr yn ogystal â'u cleientiaid. Roedd gweithredu'r safon yn cael ei ytsyried yn her sylweddol o ran seilwaith, ac roedd rhanddeiliaid yn teimlo y byddai angen bod yn glir pwy fyddai'n gyfrifol am ariannu seilwaith a hyfforddiant. Ar yr un pryd, roedden nhw hefyd yn teimlo y gallai'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru weithredu fel adnodd er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng Cymru a gweddill y DU o ran cyllid a ffocws ar gydraddoldeb digidol.

Fodd bynnag, nid yw fforddiadwyedd ei hun yn rhan o'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol. Mae'r fethodoleg MIS yn arwain at fasedged o nwyddau a gwasanaethau wedi'u costio. Ar y pwynt hwn, mae fforddiadwyedd y fasedged honno'n dod yn broblem i bolisi a/neu sefydliadau fynd i'r afael â sut y gellir cefnogi aelwydydd trwy amrywiol dulliau i dalu'r gost honno (e.e., y farchnad, cyflogaeth, budd-daliadau, tariffau cymdeithasol, neu ddarpariaeth uniongyrchol ac ati). Mae'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn cynnwys cyfuniad o nwyddau materol, gwasanaethau, a sgiliau ac felly mae'n fwy cymhleth nag un gost yn unig. Y cwestiwn polisi yw sut i ddiwallu'r set lawn hon o anghenion Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol – y mae fforddiadwyedd rhai agweddau ohonynt yn ddim ond un o'r heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy. Roedd gweithredu'r safon yn cael ei ytsyried yn her sylweddol o ran seilwaith, ac roedd rhanddeiliaid yn teimlo y byddai angen bod yn glir pwy fyddai'n gyfrifol am ariannu seilwaith a hyfforddiant. Ar yr un pryd, roedden nhw hefyd yn teimlo y gallai'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru weithredu fel adnodd er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng Cymru a gweddill y DU o ran cyllid a ffocws ar gydraddoldeb digidol.

3.4.4 Natur wledig

O'r cyfweiliadau a'r arolwg Delphi, mae'r holl ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod natur wledig yn fater allweddol i'w ystyried yn y broses o ddatblygu a gweithredu'r Y

Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru. Pwysleisiodd yr ymatebion i'r arolwg agored ei fod yn effeithio ar ddarpariaeth seilwaith (h.y., mynediad), hyrwyddo llythrennedd digidol (h.y., sgiliau) a phroblemau cysylltedd, y gallai pob un ohonynt gael effaith ar les trigolion mewn ardaloedd gwledig. Hefyd, cydnabuwyd bod materion o amrywiaeth daearyddol ac amddifadedd cymdeithasol y mae angen rhoi sylw iddynt wrth ystyried natur wledig Cymru. Fel y gwelir yn y dyfyniad isod, daeth hyn i'r amlwg hefyd o'r cyfweiliadau:

“Ceir cymunedau a chartrefi anghysbell iawn yng Nghymru, cymunedau ffermio a chymunedau arfordirol. Ac rwy'n credu bod y rhain yn cyflwyno rhywfaint o heriau o ran cysylltedd â'r rhyngwrwd. Ac mae hynny'n rhywbeth sydd angen bod ar frig yr agenda wrth feddwl am unrhyw gynnydd digidol.”

Prif Weithredwr Cymdeithas Dai

Codwyd mynediad i fand eang fel her mewn ardaloedd gwledig, a dylai Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru ystyried hynny. Bu un cynrychiolydd o gwmni sy'n darparu cysylltedd â'r rhyngwrwd mewn ardaloedd ymylol yn siarad yn angerddol am y ffaith fod bodolaeth y rhwydwaith yn yr ardaloedd hyn yn galluogi pobl o bob cefndir i gael gwell cysylltedd, a bod hynny'n bwysig gan y byddai yno am genedlaethau i ddod gyda chapasiti i dyfu, gan atal y cymunedau hyn rhag cael eu gadael ar ôl. Roedd rhanddeiliad arall yn teimlo er y byddem eisiau i bawb gael y 'safon aur' o ran ffibr mewn byd delfrydol, mewn gwirionedd, nid fyddai hyn yn cyrraedd rhai ardaloedd gwledig, a'i fod, yn hytrach, yn cefnogi'r syniad y dylid gwneud defnydd arloesol o dechnolegau amgen megis mynediad diwifr sefydlog a chyfathrebu'r hyn sydd ar gael i'r ganran fechan honno sydd heb ffibr. Gallai'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol fod yn ddefnyddiol yma, er enghraifft i dargedu ymyriadau'n well at ardaloedd sy'n is na'r lleiafswm – mae hyn yn cynnwys helpu i nodi naill ai fesul ALI neu o bosibl lefel MALIC.

Darparodd bron i hanner ymatebwyr yr arolwg ymatebion hirach i'r cwestiwn agored ar y pwnc hwn, gan nodi materion a syniadau ymyrryd. Yn bwysig, tynnwyd sylw ganddynt at y cymhlethdodau yn y cyd-destun gwledig. Er enghraifft, mewn rhai rhanbarthau nid oedd galw mawr am seilwaith tlotach, felly canfuwyd ei fod yn “ddigon da”. Gall lefelau cynyddol o ddefnydd a mynediad felly leihau ansawdd y gwasanaeth. Felly roedd angen i gynyddu sgiliau digidol a chynhwysiant gael eu paru â gwelliannau mewn seilwaith. Mae hefyd yn amlwg bod cysylltedd symudol yn cael ei amlgyu'n llawer mwy ar gyfer cyd-destunau gwledig – mae hyn hefyd yn dod i'r amlwg yn ein cyfweiliadau grŵp Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol (gweler adran 4). Disgrifiwyd diffyg mynediad 4G/5G fel rhywbeth “gwahaniaethol”. Tynnodd un ymatebydd sylw at yr ohebiaeth ynghylch band eang sy'n is na'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, mynediad cyfyngedig 4G a 5G a phoblogaethau sy'n wynebu sgorau salach uwch ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yn enwedig o ran trafniadaeth ac amseroedd teithio. Tynnodd ymatebydd arall sylw at y ffaith bod mynediad 4G/5G gwael yn atal rhai cymunedau rhag datrysiaadau mynediad digidol yn seiliedig ar ddata symudol - fel y Banc Data Cenedlaethol.

3.4.5 Yr Iaith Gymraeg

“O’n safbwynt ni, mae’n rhaid iddo fod yn ddwyieithog trwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg, a bod y ddwy iaith yn cael sylw cyfartal”.

Uwch Dîm Rheoli mewn sefydliad sy’n darparu cymorth, cyngor a chyfleoedd ariannu i sefydliadau cymdeithasol sifil

Roedd rhanddeiliaid yn glir y dylid ystyried yr Iaith Gymraeg wrth lunio’r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru, yn hytrach na rhywbeth sy’n cael eu hychwanegu neu’n cael ei gyfieithu o fersiwn Saesneg. Roedd ymatebwyr ein harolwg yn cytuno â’r rhan fwyaf o’r ymatebwyr (21 o 23 – mwy na 90%) naill ai’n cytuno neu’n cytuno’n gryf mai mater allweddol i’w ystyried yn y broses o ddatblygu a gweithredu’r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru yw’r Gymraeg. Er mai dim ond un ymatebydd nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno, nid oedd yr un ymatebydd naill ai’n anghytuno nac yn anghytuno’n gryf.

Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod yr iaith Saesneg yn cael blaenoriaeth yn aml yn y gwasanaethau digidol a nifer o’r systemau y mae angen i ddinasyddion Cymru eu defnyddio, sy’n anfantais i’r rhai sy’n defnyddio’r Gymraeg fel iaith gyntaf, neu sy’n well ganddynt gyfathrebu drwy’r Gymraeg. Roedd enghreifftiau mwy penodol a roddwyd gan rhanddeiliaid o’r rhai hynny sydd mewn perygl o gael eu hallgáu yn cynnwys pobl gydag anableddau dysgu sydd wedi cael eu magu mewn cartrefi cyfrwng Cymraeg, a phobl hŷn gyda dementia lle mae’r sgiliau ieithyddol Saesneg yn cael eu colli cyn sgiliau ieithyddol Cymraeg. Mae’r cwestiwn yn parhau i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ynglŷn ag i ba raddau y byddant yn gallu mynd i’r afael â hynny. Mynegodd un o ymatebwyr ein harolwg yn glir yr angen i ddatblygu sgiliau digidol fod ar gael yn Gymraeg.

Gallai gwasanaethau sy’n cael eu datblygu a’u defnyddio gan lywodraeth Cymru a’r DU a rhanddeiliaid yng Nghymru gael eu darparu neu eu hadeiladu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae’n bosibl y byddai hynny’n ofynnol. Nid yw’r un peth yn wir am nifer o systemau gwasanaethau digidol neu gynnwys sy’n cael ei greu a’i letya y tu allan i Gymru a’r DU. Gallai hyn ymestyn ar draws pob maes, o wasanaethau ariannol, cyngor iechyd a deunydd addysg i gyfryngau adloniant ac apiau. Yn yr achosion hyn, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol na masnachol i ddarparu fersiwn Gymraeg. O ganlyniad, gallai mynediad i gynnwys a gwasanaethau digidol i siaradwyr Cymraeg fod yn gyfyngedig o’i gymharu â grwpiau a rhanbarthau eraill y DU. Gallai’r cwestiwn o ran cyflwyno Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru ymwneud ag i ba raddau y gall ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru neu rhanddeiliaid liniaru’r anghydraddoldeb hwn mewn systemau a gwasanaethau digidol yn effeithiol.

Yn adolygiad Delphi, er bod y rhan fwyaf o’r ymatebwyr (21 o 23) naill ai’n cytuno neu’n cytuno’n gryf fod y Gymraeg yn fater allweddol i’w ystyried wrth ddatblygu a gweithredu’r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru, her arall a nodwyd gan gwestiwn penagored oedd y gall hyn fod yn fater ymrannol. Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith, i rai, y gall y gofynion polisi ar gyfer darpariaeth Gymraeg fod yn rhwystr i’r economi a darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru.

3.4.6 Perchnogaeth gan bobl Cymru

“Y naratif sy’n dod i’r amlwg yw bod gweithred yn Lloegr yn weithred ar gyfer y DU gyfan, ac nid yw hynny’n wir bob amser”.

Rheolwr ar ran elusen sy’n cynrychioli pobl gydag anableddau dysgu

Roedd rhanddeiliaid yn teimlo y byddai modd cyflwyno Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru yn fwy llwyddiannus pe byddai canfyddiad ei fod yn ‘berchen’ i bobl Cymru, gyda ‘gweledigaeth ddigidol i Gymru’. Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd gwrando ar gymdeithas ehangach er mwyn i bobl deimlo bod ganddynt fwy o fewnbwn wrth lunio’r safonau hyn, a dyna pam y byddwn yn cyfweled â phobl sydd wedi’u hallgáu o’r byd digidol yn ystod cam nesaf y prosiect. Bydd angen ymrwymiad a pherchnogaeth gan Lywodraeth Cymru i weithredu’r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru i’w harwain yn ei blaen.

3.4.7 Amrywiaeth cymunedau ac unigolion

Fel y soniwyd uchod, un o’r heriau i lunwyr polisi wrth weithredu’r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru a nodwyd yn adolygiad Delphi oedd yr angen i ystyried amrywiaeth poblogaeth Cymru. Fel y dangosir yn y dyfyniad isod:

“Gallai person ofyn i rywun a oes ganddyn nhw ddarn o dechnoleg? Neu a ydyn nhw’n defnyddio technoleg? Mae dehongliad pawb o dechnoleg yn wahanol hefyd. Felly, fe allwn i fynd at fy mamgu a gofyn a yw hi’n defnyddio technoleg, a byddai hi’n dweud na, ond mewn gwirionedd, mae ganddi hi ffôn clyfar yn ei phoced sydd â mwy o bŵer na roced i fynd i’r Gofod”.

Gweithiwr Cymorth Cymunedol gyda sefydliad sy’n darparu cymorth i bobl hŷn

Mae’r rhanddeiliaid y buom ni’n siarad â nhw’n gweithio gyda grwpiau sy’n fwy tebygol o gael eu hallgáu o’r byd digidol, gan gynnwys oedolion hŷn, pobl anabl, pobl mewn tai cymdeithasol a phobl gydag incwm isel. Roedden nhw’n pwysleisio pwysigrwydd adlewyrchu anghenion, amgylchiadau a dewisiadau’r grwpiau yr oedden nhw’n gweithio gyda nhw. Nid yw bob amser yn glir i ba raddau mae’r amgylchiadau hyn yn adlewyrchu rhywbeth penodol i Gymru neu mewn gwirionedd i’r grwpiau a’r cymunedau hynny’n gyffredinol. Roedd nifer yn codi pryderon ynglŷn â’r anawsterau wrth geisio cyrraedd y rhai sydd wedi’u hallgáu fwyaf o safbwynt digidol. Roedd rhanddeiliaid yn nodi bod rhai unigolion wedi’u hallgáu o’r byd digidol o ddewis, neu fod y ddealltwriaeth o’r hyn y mae allgáu o’r byd digidol yn ei olygu yn amrywio o un person i’r llall, a bydd hynny’n allweddol wrth gyfathrebu a chyflwyno Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru. Dylid ystyried y materion hyn mewn perthynas â strategaethau cydraddoldeb ehangach a byddai angen i’r broses o weithredu’r safon fod yn unol â deddfwriaeth ehangach yng Nghymru. Fodd bynnag, nododd rhai cyfranogwyr mewn ymateb i gwestiwn penagored yn adolygiad Delphi, er bod cyfleoedd hyfforddi eisoes ar waith yng Nghymru, y dylid nodi hyfforddiant yn benodol yn y diffiniad o’r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru. Ar hyn o bryd, mae hyn ymhlyg yn y syniad o ‘gymorth’ sydd wedi’i gynnwys yn y diffiniad.

3.4.8 Sgiliau a Hyfforddiant

“Nid oes unrhyw safonau digidol craidd o ran hyfforddiant i staff... Rwy'n credu y dylai fod yn ofynnol i chi wneud y cwrs. Mae hyn yn mynd i arwain newid, ac mae'n mynd i arwain pobl i wireddu eu potensial”.

Arweinydd elusen sy'n darparu cymorth i bobl anabl

Er bod mynediad i fand eang a dyfeisiau'n bwysig, heb y sgiliau angenrheidiol i gael mynediad i'r rhyngwrwd, ni fydd yn cynnig cymaint o fuddion i bobl ag y gallai. Mae rhanddeiliaid yn ymwybodol o bwysigrwydd sgiliau digidol ar gyfer cleientiaid a'u staff. Roedd hyfforddiant ar gyfer staff cymorth yn cael ei ystyried yr un mor bwysig, gyda rhanddeiliaid yn nodi diffyg cysondeb o ran sgiliau digidol a hyder ymysg y gweithlu, a'r cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael iddyn nhw. Er bod Sgiliau Digidol Cymru³³ yn cynnig hyfforddiant cynhwysiant digidol, a bod darparwyr yn cynnig hyfforddiant i'w staff eu hunain, nid oes unrhyw safonau craidd na lefel sgiliau gorfodol i'r rhai sy'n gweithio yn y sector preifat. Roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu am lefel y gefnogaeth y byddai staff yn gallu ei roi i gleientiaid pe bydden nhw eu hunain yn wedi'u hallgáu o'r byd digidol, heb sgiliau digonol neu'n ddi hyder.

“Heb yr hyfforddiant, nid oes modd gwybod am y pethau yma”.


Gweithiwr Cymorth Cymunedol gyda sefydliad sy'n darparu cymorth i bobl hŷn

O ran cleientiaid, roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol bod llawer o bobl heb y sgiliau a/neu'r hyder i ymgysylltu'n llawn gyda'r cynnig digidol sydd ar gael. Gallai person fod yn fedrus iawn wrth ddefnyddio dyfais benodol (e.e. ffôn clyfar) ond yn methu â defnyddio dyfeisiau eraill (e.e. gliniadur), neu fod yn fedrus mewn un maes ond nid mewn meysydd eraill. Golyga hynny efallai y byddent yn gallu elwa o rai cyfleoedd ar-lein ond yn methu â manteisio ar wasanaethau digidol, a allai ddibynnu er enghraifft ar ddefnyddio safleoedd iechyd neu'r llywodraeth. Nododd un o'r rhanddeiliaid fod y pandemig wedi cyflwyno grwpiau ac unigolion i ddefnyddio'r rhyngwrwd nad oeddent yn gwneud hynny'n flaenorol. Bu rhanddeiliaid yn trafod sut y gall hyfforddiant wneud i bobl deimlo'n fwy diogel gan eu bod yn deall sut i aros yn ddiogel ar-lein, gan eu gwneud yn fwy tebygol o ymgysylltu. Ar nodyn cadarnhaol, nododd rhanddeiliaid fod nifer o sefydliadau a grwpiau eisoes yn cydweithio i gynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar gyfer cleientiaid a staff cymorth.

3.4.1 Gweithredu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru

Yn bwysig ddigon, roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'n harolwg (21 o 23) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd i Gymru yn helpu i yrru materion yn ymwneud ag anghydraddoldebau digidol i frig agendâu llunwyr polisi. Pan ofynnwyd iddynt am heriau gweithredu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru fel rhan o bolisi, codwyd nifer o faterion gan ein rhanddeiliaid ac ymatebwyr yr arolwg. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (20 o 23) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf

y byddai gweithredu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru o safbwynt polisi yn gofyn am gydwethio mwy effeithiol rhwng gwahanol gyrff y llywodraeth.




Ffigur 5: Byddai cael Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru yn helpu arwain materion anghydraddoldebau digidol i frig agendâu gwneuthurwyr polisi



Ffigur 6: Byddai gweithredu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru o safbwynt polisi yn golygu y byddai angen cydwethio mwy effeithiol rhwng gwahanol gyrff y llywodraeth

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (20 allan o 23) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai gweithredu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru o safbwynt polisi yn gofyn am gyfathrebu mwy effeithiol gyda'r cyhoedd ynghylch pam mae angen cyrraedd y safon a pham ei bod yn bwysig. Er nad oedd un ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno, roedd dau ymatebydd yn anghytuno.



Ffigur 7: Byddai gweithredu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru o safbwynt polisi yn golygu y byddai angen cyfathrebu mwy effeithiol gyda'r cyhoedd o ran pam fod angen cwrdd â'r safon a pham fod hyn yn bwysig

Roedd heriau eraill a godwyd gan randdeiliaid ac ymatebwyr i'r arolwg yn cynnwys:

- Mae cynhwysiant digidol yn dal i fod yn ôl-feddwl yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.
- Mae sefydliadau'n aml yn ei chael hi'n anodd cael cyllid i ymgymryd â mentrau sy'n hyrwyddo cynhwysiant digidol.
- Mae'n anodd cyfathrebu â'r cyhoedd a rhoi gwybod i bobl ble y gallant gael cymorth o ran cyrchu a defnyddio technolegau digidol.
- Mae angen i unrhyw weithrediad ystyried amrywiaeth poblogaeth Cymru (gan gynnwys y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg).
- Mae angen herio'r dybiaeth bod rhai grwpiau'n fwy galluog ac wedi'u hysgogi'n ddigidol nag eraill a bod rhai grwpiau eraill yn cael eu hallgáu'n gynhenid (e.e., grwpiau iau yn erbyn hŷn, trefol yn erbyn gwledig).

- Mae'n bwysig annog cwmnïau preifat i gydymffurfio a chefnogi'r safon.
- Mae angen cydnabod bod diffyg gwybodaeth am allgáu digidol yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.
- Mae'r dirwedd ddigidol yn esblygu'n barhaus, sy'n gofyn am hyblygrwydd a'r gallu i addasu.
- Mae angen llawer mwy o gyfathrebu dwy ffordd a chydweithio rhwng cyrff llywodraeth/sector cyhoeddus ac eraill.
- Y galwadau cystadleuol ar gyllid cyhoeddus.
- Ni fyddai angen llawer o hyfforddiant digidol ar bobl pe bai gwasanaethau a chynhyrchion digidol yn cael eu dylunio mewn ffyrdd haws i bobl eu defnyddio.

4 Canlyniadau grwpiau'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru

4.1 Dull

Roedd sefydlu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru yn golygu adeiladu ar Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU, gan ei fod yn darparu 'gwaelodlin' i archwilio os a sut y gallai anghenion digidol amrywio ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru. Nod ymchwil Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol oedd sefydlu meincnod o'r hyn y mae pobl yn ei ddweud sydd ei angen ar gyfer lleiafswm sy'n dderbyniol yn gymdeithasol (yn benodol, yr hyn y mae angen iddynt allu cael *mynediad* ato, yr hyn y mae angen iddynt ei *gael*, a'r hyn y mae angen iddynt allu ei *wneud*) er mwyn cael eu cynnwys yn y byd digidol heddiw. I'r perwyl hwn, roedd yr ymchwil yn cynnwys nodi'r ystod o nwyddau, gwasanaethau, sgiliau, a gwybodaeth y byddai eu hangen ar unigolion a chartrefi, fel y penderfynwyd gan aelodau'r cyhoedd. Cynlluniwyd Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU fel astudiaeth 'prawf o gysyniad'. Er bod y diffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol sylfaenol yn berthnasol ar draws mathau o aelwydydd, wrth edrych ar yr hyn sydd ei angen i fodloni'r safon hon, canolbwyntiodd astudiaeth Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU ar anghenion aelwydydd â phlant oed dibynnol. Ystyriwyd bod hwn yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer datblygu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol, o ystyried arwyddocâd defnydd digidol a chynhwysiant i blant a phobl ifanc, a'i bwysigrwydd yng nghyd-destun y cartref a'r teulu. O ganlyniad, mae cynnwys Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru a amlinellir isod, yn canolbwyntio ar anghenion aelwydydd â phlant. Gellir defnyddio'r astudiaeth gychwyn hon fel sail ar gyfer trafodaethau pellach am anghenion digidol a sut y gellid diwallu'r rhain ar draws gwahanol gyfansoddiadau a lleoliadau aelwydydd yng Nghymru. Fel y nodwyd yn adran 2, mae ymchwil Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU a Chymru yn defnyddio methodoleg y Safon Isafswm Incwm (MIS)¹³. Wedi'i ddiweddarau'n flynyddol ers y set gyntaf o ganfyddiadau a gyhoeddwyd yn 2008, mae ymchwil MIS yn canolbwyntio ar sefydlu'r hyn y mae'r cyhoedd yn meddwl sydd ei angen ar bawb er mwyn cyrraedd safon byw sy'n dderbyniol yn gymdeithasol sy'n diwallu anghenion materol ac sy'n galluogi cyfranogiad a chynhwysiant cymdeithasol, gan fanylu ar yr ystod nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'r fethodoleg MIS wedi'i defnyddio i edrych ar sut mae anghenion yn amrywio mewn gwahanol gyd-destunau, ac fe'i dewiswyd fel dull addas ar gyfer archwilio'r hyn y mae angen i aelwydydd ei gynnwys yn ddigidol mewn cymdeithas. Agweddau allweddol ar y dull MIS sy'n ganolog i'w defnyddio wrth ddatblygu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yw:

- Bod y dull yn cynnwys cynnal cyfres o grwpiau trafod gydag aelodau'r cyhoedd, gan fwydo drwodd o un grŵp i'r llall, i adeiladu tuag at gonsensws.
- Mae'n seiliedig ar isafswm safon byw *dderbyniol* sy'n ymwneud â mwy na goroesi – mae'n cynnwys yr hyn y dylai pawb allu ei gael er mwyn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, byw ag urddas a chymryd rhan yn y byd o'u cwmpas.

- Mae wedi'i wreiddio ym marn y cyhoedd am angen, o safbwynt y dinasyddion eu hunain a'r hyn y maent yn ei feddwl sy'n bwysig mewn bywydau bob dydd, yn hytrach na dull 'o'r brig i lawr', a arweinir gan arbenigwyr.
- Mae'n ymwneud â gwahanol anghenion unigolion o fewn cyd-destun y cartref.
- Mae'r ffocws ar yr hyn sydd ei *angen* ar bobl i gyrraedd y safon byw dan sylw, ac unwaith y bydd yr anghenion hyn wedi'u sefydlu, maent yn gweithredu fel meincnod y gellir ei ddefnyddio i edrych ar bwy a allai fod yn cyrraedd y lefel hon neu beidio, a'r rhwystrau rhag gwneud hynny.
- Mae'r safon yn nodi'r hyn y mae pobl yn teimlo sydd ei angen, ond nid yw'n rhagnodol, ac nid oes ganddi awdurdod deddfwriaethol i orfodi'r llywodraeth na chyrrff eraill i ddarparu ar gyfer yr anghenion hyn. Fodd bynnag, mae'r safon yn offeryn pwerus sy'n darparu gwybodaeth fanwl yn seiliedig ar gonsensws cyhoeddus, sydd nid yn unig yn ysgogi trafodaeth ond y gall sefydliadau eu defnyddio yn eu harferion eu hunain. Mae MIS, er enghraifft, yn cael ei defnyddio gan nifer o elusennau sy'n rhoi grantiau ac yn benodol mae'n hysbysu gosod y Cyflog Byw Gwirioneddol.

4.1.1 Adeiladu ar Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU

Roedd Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU yn cynnwys cyfres o grwpiau ffocws a gynhaliwyd ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gydag aelodau o'r cyhoedd – gan gynnwys oedolion a phobl ifanc – rhwng mis Chwefror a mis Hydref 2022. Roedd yr ymchwil cychwynnol hwn yn canolbwyntio ar aelwydydd sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn y DU, a allai weithredu fel meincnod i archwilio unrhyw wahaniaeth mewn anghenion mewn cymunedau gwledig yn y dyfodol. Roedd pedwar cam i'r grwpiau, gyda thrafodaethau o un grŵp neu gam yn bwydo i'r nesaf i ffurfio canlyniadau'r ymchwil. Amlinellir y broses isod, ac mae manylion llawn methodoleg Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ar gyfer yr astudiaeth honno ([A UK Minimum Digital Living Standard for Families with Children: Interim Report](#)).

4.1.2 Datblygu diffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol

Yn ystod cam 'ymgyfarwyddo' cychwynnol yr ymchwil, penderfynodd grwpiau beth ddylai'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ei gwmpasu er mwyn datblygu diffiniad. Lluniwyd y diffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn seiliedig ar bum grŵp trafod, gan gynnwys pobl o wahanol fathau o ddemograffeg ac aelwydydd (gan gynnwys oedran gweithio, pensiynwyr, rhieni, a phobl ifanc). Er bod Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU a'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru wedi sefydlu'r hyn sydd ei angen ar aelwydydd â phlant i fodloni'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol, roedd yn bwysig cynnwys pobl o wahanol oedrannau a chyfnodau bywyd yn y grwpiau ymgyfarwyddo i sicrhau bod y diffiniad datblygedig yn berthnasol i bensiynwyr a phobl heb blant hefyd yn ogystal â rhieni a phobl ifanc. Yn y cyfnod ymgyfarwyddo, bu grwpiau'n trafod manteision a heriau byw mewn byd digidol a goblygiadau cynhwysiant ac allgáu digidol. Lluniwyd diffiniad o elfennau allweddol cynhwysiant digidol o ganfyddiadau'r grwpiau hyn ac fe'i defnyddiwyd drwy gydol yr ymchwil i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r 'safon' dan sylw..

Diffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol

'Mae'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn cynnwys, ond mae'n fwy na chael rhyngwyd hygyrch, offer digonol, a'r sgiliau, y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl. Mae'n ymwneud â gallu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus'.

Wrth ddatblygu'r diffiniad, roedd grwpiau'n glir y dylai fod yn amlochrog i gynnwys mwy nag ond cael dyfeisiau neu gysylltiad rhyngwyd; mae angen i'r rhain hefyd fod yn ddigonol ac yn addas i'r diben er mwyn galluogi pobl i gyflawni'r tasgau y mae angen iddynt eu gwneud. Ymhellach, diffiniwyd Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol gan y grwpiau ymglyfarwyddo fel un sydd angen gwybodaeth a sgiliau, nid yn unig er mwyn i bobl allu defnyddio technoleg ddigidol yn effeithiol, ond hefyd i wneud hynny'n ddiogel ac yn hyderus. Fel y nododd y cyfranogwyr, gallai rhywun gael gliwiadur, ond pe na bai ganddo gysylltiad band eang digonol neu os nad oeddent yn gwybod sut i ddefnyddio'r gliwiadur yn iawn, ni fyddent yn cael eu cynnwys yn ddigidol. Felly, datblygwyd y diffiniad i gwmpasu'r hyn y byddai ei angen ar unigolyn neu aelwyd, yn ogystal â'r seilwaith sydd ei angen arnynt i gefnogi hyn.

Mae'n werth ailadrodd bod ymchwil ar Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn ymwneud â sefydlu anghenion: ond mae diwallu'r anghenion hyn a chyrraedd Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn dibynnu ar fynediad i ystod o adnoddau. Gall fforddiadwyedd fod yn hanfodol er mwyn i bobl allu diwallu eu hanghenion digidol, ac roedd yr ymchwil gyda rhanddeiliaid yn cwstyynu a ddylai gael ei gynnwys yn benodol yn niffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru (gweler Adran 3). Fodd bynnag, p'un ai oes gan rywun ddigon o adnoddau ariannol ai peidio, mae eu hanghenion mewn egwyddor yn aros yr un fath. Felly gall fforddiadwyedd, ochr yn ochr â ffactorau eraill megis lleoliad (er enghraifft, natur wledig), a mynediad at seilwaith (er enghraifft, Wi-Fi dibynadwy, signal symudol, gwasanaethau) effeithio ar y gallu i ddiwallu anghenion digidol a'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol, yn hytrach na'r anghenion eu hunain .

Rydw i'n meddwl mai pwrpas hyn yw dweud beth yw'r safon fel bod pawb, yr hyn sydd angen arnynt nhw i fynd trwy fywyd nawr? Dyw e ddim am eich sefyllfa ariannol gyllideb chi.... Beth bynnag rydyn ni'n ei wneud, p'un ai ydyn ni'n gweithio, yn yr ysgol, wedi ymddeol, rydyn ni'n gosod y safon ynghylch yr hyn sydd angen arnom ni i fyw heddiw.

Cyfranogwr, grŵp Cyfeiriadedd Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU, Abertawe

4.1.3 Penderfynu beth sydd ei angen ar gyfer Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol

Bu cyfres arall o grwpiau yn trafod beth fyddai ei angen ar deuluoedd a phlant i gwrdd â'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol. Cynhaliwyd naw grŵp gyda rhieni, gan gynnwys grwpiau rhieni penodol â phlant ar wahanol oedrannau – cyn ysgol, oedran ysgol gynradd neu uwchradd – i sicrhau ffocws trylwyr ar sut y gallai anghenion digidol plant (a'u rhieni) amrywio ar wahanol oedrannau. Cynhaliwyd tri grŵp gyda phobl ifanc rhwng 11 ac 17 oed ochr yn ochr â chymau olaf y grwpiau rhieni a bu'n bosibl rhoi adborth gan oedolion a phobl ifanc.

Cyflwynwyd ac esboniwyd diffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar ddechrau pob grŵp i ddarparu fframwaith i drafod anghenion unigolion damcaniaethol yn y cartref. Defnyddiwyd y rhain i helpu cyfranogwyr i fyfyrto ar sut y byddai anghenion rhywun yn eu cartref eu hunain yn cael eu diwallu. Lle'n berthnasol, defnyddiwyd nwyddau technolegol a oedd eisoes wedi'u cynnwys yn MIS fel man cychwyn a gofynnwyd i grwpiau ystyried y mathau a'r manylebau o ran offer, gwasanaethau, sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen ar bwy ac i wneud beth. Roedd penderfyniadau'n cael eu bwydo trwy'r gwahanol gamau - Grwpiau Tasg, Grwpiau Gwirio'n ôl, a Grwpiau Terfynol - a'u hadolygu trwy broses sianelu i symud tuag at gonsensws am gynnwys Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol.

4.2 Datblygu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar gyfer cartrefi â phlant yng Nghymru

Unwaith y sefydlwyd Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU, darparodd y potensial i ymestyn yr ymchwil i edrych yn benodol ar anghenion digidol teuluoedd yng Nghymru. Cynhaliwyd tri grŵp ffocws (pob un yn cynnwys 8 cyfranogwr) ym mis Tachwedd 2022 i alluogi archwilio'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ymhellach gydag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru. Cynhaliwyd dau grŵp gyda rhieni, gan gynnwys rhieni unigol a rhieni partner (cyfuniad o famau a thadau) o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys pobl sy'n gweithio/ddim mewn gwaith, ar fudd-daliadau prawf modd ac mewn gwahanol ddeiliadaethau tai), a oedd â phlant oed o dan 1 i 17 oed. Cynhaliwyd y cyntaf (Tasglu) mewn tref yn Ne Cymru ac roedd yn cynnwys cyfranogwyr o ardaloedd cyfagos. Cynhaliwyd y llall (Grŵp terfynol) ar-lein i alluogi lledaeniad daearyddol ehangach o gyfranogwyr, gan gynnwys rhai mewn lleoliadau mwy gwledig. Roedd y grwpiau'n cynnwys siaradwyr Cymraeg, ac roedd gan rai cyfranogwyr blant a oedd yn mynd i ysgolion Cymraeg. Cynhaliwyd grŵp (Gwirio'n ôl) gyda phobl ifanc (13-16 oed) mewn ysgol uwchradd mewn tref arall yn Ne Cymru, ac fe'i cynhaliwyd rhwng y ddau grŵp rhieni, gan roi cyfle i'r tîm ymchwil adrodd penderfyniadau a safbwyntiau yn ôl rhwng rhieni a phobl ifanc. Ni chynhaliwyd y grŵp ffocws gyda phobl ifanc mewn ysgol Gymraeg, er bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel rhan o'r cwricwlwm.

Mae'n bwysig nodi nad yw ymchwil Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru yn ceisio cymharu'n uniongyrchol â Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU. Mae Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU yn seiliedig ar anghenion teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd trefol, tra bod dau o'r grwpiau ffocws yng Nghymru mewn trefi, ac roedd y llall yn cynnwys safbwyntiau pobl mewn ardaloedd mwy gwledig hefyd. Yn hytrach, mae'n gyfle i ganolbwyntio'n benodol ar farn pobl sy'n byw yng Nghymru am eu hanghenion digidol a materion sy'n berthnasol iddynt.

Cyflwynwyd ac esboniwyd diffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar ddechrau pob un o'r tri grŵp Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru. Teimlai'r cyfranogwyr fod diffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn briodol ac yn cwmpasu'r gwahanol agweddau ar anghenion cynhwysiant digidol, a gwnaed y cytundeb hwn â diffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn fwy amlwg pan gyfeiriodd y cyfranogwyr yn ôl ato yn ystod trafodaethau.

Fe wnaeth y tri grŵp trafod Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru ailadrodd yr angen eang a chynyddol am dechnoleg a mynediad i'r rhyngwyd. Roedd enghreifftiau o gyffredinrwydd anghenion digidol yn cynnwys rhieni'n gweithio o gartref, rhyngweithio ar-lein ag ysgolion, defnyddio mapiau GPS/Google, sianeli adloniant digidol, gemau, yn ogystal â phwysigrwydd apiau ar gyfer cyfryngau cymdeithasol ac adloniant, yn enwedig i bobl ifanc. Nododd y cyfranogwyr fod mynediad ar-lein nid yn unig wedi dod yn bwysicach yn ystod Covid, ond hefyd wedi cael effeithiau parhaol ar rieni a phlant. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol ac yn cael ei drafod yn aml mewn perthynas ag addysg lle roedd rhyngweithio ar-lein rhwng rhieni/ysgolion a gwaith cartref ar-lein yn parhau ac roedd ymgysylltu digidol ar gyfer plant a rhieni yn cael ei ystyried yn hanfodol.

Ers Covid, maen nhw wedi dysgu ei bod hi'n haws ac yn gyflymach iddyn nhw wneud nosweithiau rhieni ar-lein ...does dim rheswm i gael hynny bellach, ond maen nhw'n dewis gwneud hynny.

Rhieni, Grŵp Tasg^f

Yn ysgol fy mhlant, cynradd ac uwchradd, mae'r holl waith cartref wedi'i osod ar [enw ap ysgol], dyna'r ap sydd gyda ni. Mae'n rhaid archebu noson rhieni trwy'r ap, rhaid i mi archebu sedd yn y cyngerdd Nadolig trwy'r ap, rhaid i mi archebu'r holl weithgareddau ar ôl ysgol, mae adroddiadau ysgol yn cael eu hanfon drwyddo, mae'n rhaid iddo wneud yr holl adolygu hwn ar-lein, mae'n rhaid iddo nodi'r tasgau y mae wedi'u gwneud. Y diwrnod o'r blaen, roedd angen iddo wirio rhywbeth, roedd yn rhaid iddo e-bostio ei athro o gartref. Felly mae'n ddigidol ond nid trwy ddewis, mewn gwirionedd

Rhieni, Grŵp Terfynol

Gan ddefnyddio Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU fel man cychwyn, cyflwynodd hwyluswyr y grŵp restrau o eitemau (dyfeisiau/nwyddau technolegol), cysylltedd ar-lein (data symudol a band eang), a sgiliau a gwybodaeth y cytunwyd arnynt gan gyfranogwyr ymchwil y DU yn ôl yr angen i gwrdd â Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol. Yn ystod y trafodaethau gwahoddwyd y cyfranogwyr i roi sylwadau ar bob agwedd ar gynnwys Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol— a oeddent yn teimlo eu bod yn briodol, a allai fod unrhyw wahaniaethau mewn anghenion Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU, yn ogystal â materion a allai fod yn berthnasol i allu pobl i fodloni'r gwahanol agweddau ar Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol. Roedd hyn yn cynnwys gofyn a oedd unrhyw ffactorau yn ymwneud â byw yng Nghymru a allai fod â goblygiadau i'r materion dan sylw, fel y defnydd o'r Gymraeg. Trefnwyd cynnwys Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru a'r DU yn dair cydran:

- Nwyddau a gwasanaethau digidol
- Sgiliau ymarferol a gweithredol

^f I ddiogelu anhysbysrwydd, mae'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr adrannau canlynol yn cyfeirio at 'gyfranogwr' yn unig. Lle mae cyfranogwyr lluosog yn siarad, nid yw'r nifer a briodolir iddynt (P1, P2 ac ati) ond yn nodi'r drefn y siaradodd y cyfranogwyr o fewn pob dyfyniad, yn hytrach na nodi cyfranwyr unigol trwy gydol grŵp penodol.

- Sgiliau a gwybodaeth ar gyfer diogelwch digidol a hyder

Amlinellir cynnwys pob un o'r cydrannau hyn isod ochr yn ochr â'r rhesymeg o drafodaethau grwpiau sy'n manylu ar bwysigrwydd y gwahanol elfennau ar gyfer cynhwysiant digidol, ac fel y'u cwmpaswyd yn niffiniad Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol o anghenion pobl ar draws y meysydd hyn.

4.3 Nwyddau a gwasanaethau digidol ar gyfer Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru

Mae'r adran hon yn amlinellu'r nwyddau a'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru ar gyfer cartrefi â phlant. Er bod grwpiau wedi cael trafodaethau eang ynghylch dyfeisiau a chysylltedd ar-lein, ni wnaethant newidiadau sylweddol i'r rhestr gyffredinol o wasanaethau nwyddau a sgiliau a luniwyd gan grwpiau Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU. Yn hytrach, roedd cyfranogwyr yn y grwpiau ar gyfer Cymru yn tueddu i ganolbwyntio ar faterion a allai atal person neu gartref rhag cyrraedd Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol; er enghraifft, seilwaith (gweler hefyd Adran 4.5.1). Roedd y cyfranogwyr felly'n cydnabod bod ffactorau pwysig yn dylanwadu ar alluoedd pobl i fodloni'r Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn hytrach na theimlo y dylai'r anghenion eu hunain newid. Cyflwynir y nwyddau, gwasanaethau a sgiliau ar gyfer Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru isod ac maent yn cyfeirio at safbwyntiau cyfranogwyr sy'n byw yng Nghymru.

4.3.1 Band eang

- **Band eang cartref – gyda chyflymder digonol i gefnogi sawl aelod o'r teulu i ddefnyddio dyfeisiau / bod ar-lein ar yr un pryd**

Roedd grwpiau'n cytuno bod band eang yn y cartref yn angenrheidiol i deuluoedd â phlant, gan dynnu sylw at yr holl ddyfeisiau sydd angen mynediad ar-lein yn y cartref i gael mynediad at adloniant, cyfathrebu a gwybodaeth, fel setiau teledu gyda'r rhyngwrwyd, ffonau symudol, gliniaduron a chonsolau gemau. Gyda chymaint o fywyd yn ddigidol, teimlai grwpiau y dylai cysylltiad band eang cartref digonol alluogi aelodau lluosog y teulu i gael mynediad i'r rhyngwrwyd ar yr un pryd, trwy ystod o ddyfeisiau, ac i gymryd rhan yn y gweithgareddau yr oeddent am eu gwneud, heb orfod cyfaddawdu neu boeni am gysylltiad ansefydlog. Byddai'r cyflymder band eang gofynnol yn amrywio yn dibynnu ar faint y cartref a sut roedd yn cael ei ddefnyddio. O ystyried yr ystod o dechnoleg sydd wedi'i chynnwys yn Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol (a gyflwynir isod) a'r gweithgareddau a drafodir mewn grwpiau, gallai fod angen i gysylltiad rhyngwrwyd gefnogi gofynion cydamserol gemau fideo ar-lein, gwyllo teledu digidol neu ffrydio cerddoriaeth, a phori'r rhyngwrwyd, cyfryngau cymdeithasol neu YouTube i deulu gyda sawl plentyn, yn ogystal ag i rai rhieni sy'n gweithio gartref a allai olygu cyfarfodydd neu alwadau ar-lein.

Mater allweddol a godwyd ar draws grwpiau'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru oedd cael mynediad at fand eang a oedd yn ddigonol i ddiwallu anghenion teulu. Roedd profiadau'r cyfranogwyr yn amrywio, ac yn dibynnu ar yr ardal yr oeddent yn byw ynddi, yn ogystal â'r math o dai a sut y'i hadeiladwyd. Er enghraifft, roedd bod mewn

ardal gyda band eang cyflym iawn, neu eiddo newydd a oedd yn cynnwys cysylltiad ffibr tra-chyflym wedi'i gynnwys yn golygu gallu defnyddio dyfeisiau lluosog – fel y nododd rhiant â phedwar o bobl ifanc yn eu harddegau yn y tŷ fod hyn yn 'cadw pawb yn hapus'. Fodd bynnag, disgrifiodd cyfranogwyr eraill eu bod nhw'n eu chael yn anodd cael cysylltiad band eang digonol, yn enwedig os oeddent yn byw mewn ardal wledig gyda chyflymder cyfyngedig ar gael, neu eiddo hŷn, gyda waliau mwy trwchus a oedd yn ei gwneud yn anodd sefydlu cysylltedd Wi-Fi sefydlog drwy'r cartref. Gallai cyfryngu'r amgylchiadau hyn olygu gorfod defnyddio llwybryddion ychwanegol, estynwyr neu atgyfnerthydd i wella ansawdd y cysylltiad, hyd yn oed ar ôl uwchraddio i wasanaeth cyflymach. Roedd goblygiadau band eang cartref annibynadwy yn cynnwys anhawster i wneud gwaith cartref ar-lein lle roedd angen gliniadur, lle roedd yn rhaid defnyddio data symudol (os oedd modd cael gafael arno) a thalu mwy am becyn band eang cyflymach lle nad oedd pecyn safonol yn diwallu eu hanghenion.

'Os ydw i'n gwyllo Disney Plus a bod fy nghariad ar yr Xbox, yn aml iawn bydd yn diffodd. Ac yna mae'n rhaid i mi ddefnyddio fy nata symudol os ydw i am fynd ar y we. Ond, rydyn ni'n dal i dalu £27.50 y mis ond mae'n ofnadwy. Mae mor wael. Anaml iawn y gallwch chi ddefnyddio'r Wi-Fi i fyny'r grisiau.'

Rhieni, Grŵp Tasg

'Rwyf wedi gorfod talu am gael y scooby doo Wi-Fi ychwanegol hynod gyflym a band eang er mwyn i fy mab allu chwarae ar ei Xbox tra byddaf yn gweithio ar y gliniadur oherwydd pan oedd gennym ni'r un safonol, sylwon ni fod ei gêm yn araf iawn drwy'r amser. A dim ond ni'n dau yw hynny.'

Rhieni, Grŵp Terfynol

Byddai'r cyflymder band eang cartref sy'n ofynnol er mwyn i deulu gyflawni'r tasgau y mae angen iddynt eu gwneud yn amrywio nid yn unig yn dibynnu ar faint y cartref a'r mathau o weithgareddau y byddai'n cael ei ddefnyddio ar eu cyfer, ond hefyd oherwydd gwahaniaethau o ran ansawdd y cysylltiad a'r cyflymder band eang cartref a gyflawnwyd (gweler hefyd Adran 4.6). Mae'r ffactorau hyn yn golygu na fyddai'r hyn a allai fod yn ddigonol ar gyfer un cartref yn ddigon i un arall. Gan adlewyrchu'r amrywiad posibl hwn, yn hytrach na phennu cyflymder band eang cartref penodol ar gyfer Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol, cytunodd grwpiau ar egwyddor y dylai lefel y cyflymder band eang sydd ei angen ar aelwyd fod yn ddigon i ganiatáu i bob aelod o'r cartref ei ddefnyddio ar yr un pryd heb brofi anawsterau, gan gynnwys ar gyfer gweithgareddau band eang dwys fel chwarae gemau fideo a ffrydio. Fel y nodwyd yn Adran 3, nid yw'r angen yn wahanol i Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn Adran 3 ac isod, gall sut i ddiwallu'r angen hwn yng nghyd-destun Cymru godi heriau gwahanol a gofyn am ymatebion polisi gwahanol nag mewn lleoliadau eraill yn y DU.

4.3.2 Ffôn symudol a data

- **Ffôn clyfar lefel mynediad fesul rhiant a phlentyn oedran ysgol uwchradd ac o leiaf 5GB o ddata y mis, yr un.**
- **Ynghyd ag o leiaf 3GB o ddata ychwanegol y mis ar gyfer rhieni plentyn cyn oed ysgol neu oedran ysgol gynradd.**

Roedd cynnwys ffôn clyfar a data yn cael ei ystyried yn hanfodol ar gyfer cyfranogiad rhieni a phobl ifanc yn y byd o'u cwmpas, o ystyried pa mor gyffredin yw gwasanaethau ar-lein a chyfathrebu tra allan. Cytunodd grwpiau y byddai ffôn clyfar lefel mynediad yn ddigonol i fodloni'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar gyfer rhieni a phlant oed ysgol uwchradd. I gwrdd ag isafswm angen derbynol, nid oedd yn rhaid i'r ffôn clyfar fod o frand penodol cyn belled â bod ganddo'r swyddogaethau a'r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer y tasgau yr oedd angen iddynt wneud - enghraifft o ffôn clyfar lefel mynediad gyda 32GB o ddyfais roedd cof, a fyddai'n para am ddwy flynedd, yn cael ei ystyried yn feincnod rhesymol .

Cytunodd grwpiau rhieni a phobl ifanc, er mwyn cwrdd â'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol, y byddai angen i blentyn gael ei ffôn symudol ei hun erbyn iddo fynd i'r ysgol uwchradd. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig yn gyntaf ar ddiogelwch, gan y gallai plentyn mewn ysgol uwchradd fod yn teithio i'r ysgol ar ei ben ei hun neu'n dechrau mynd allan gyda ffrindiau'n annibynnol, ac yn ail ar yr egwyddor y gallent fod yn trefnu mwy a mwy o agweddau o'u bywyd cartref ac ysgol. Eglurodd pobl ifanc, wrth i blentyn symud ymlaen drwy'r ysgol uwchradd, byddai eu defnydd o ffôn clyfar yn datblygu – roedd hyn yn gysylltiedig â thrafodaethau cyfochrog am y sgiliau a'r wybodaeth y byddai eu hangen ar bobl ifanc ar gyfer diogelwch digidol a hyder ar wahanol oedrannau a champau ymgysylltu â thechnoleg (gweler Adran 4.4). Bu pobl ifanc yn trafod defnyddio ffôn clyfar a data i gadw golwg ar waith cartref a negeseuon ysgol, gwneud taliadau pan fydd ganddynt eu cyfrifon banc eu hunain, ac ar gyfer adloniant a chadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu. Roedd y rhain yn agweddau ar ymgysylltu digidol a ystyriwyd yn hanfodol ar gyfer cyfranogiad cymdeithasol a chysylltu â'r byd ehangach, yn enwedig wrth i blant fynd yn hŷn ac yn fwy annibynnol (roedd y bobl ifanc yng ngrŵp trafod Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru rhwng 13-16 oed).

4.6.3 Cyfrifoldeb ehangach – darparwyr gwasanaethau, llwyfannau, a'r Llywodraeth

Rhannodd y cyfranogwyr eu barn hefyd am yr angen am gyfrifoldeb ehangach am ddiogelwch digidol. Roedd teimlad y dylai cwmnïau technoleg sy'n gweithredu yn y meysydd lle mae risgiau fod â mwy o rôl mewn diogelwch digidol, er enghraifft cwmnïau gemau fideo a chyfryngau cymdeithasol, a darparwyr rhyngwrwyd a ddylai fod â rhywfaint o gyfrifoldeb moesegol i bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Mae cyfranogwyr felly yn gweld diwallu'r angen i ddeall a rheoli risgiau fel cyfrifoldeb i'r gymdeithas sifil ehangach, y llywodraeth, a diwydiant nid yn unig nhw eu hunain. Mae gan hyn oblygiadau o ran lle mae cydbwysedd y cyfrifoldeb am ddiogelwch ar-lein mewn deddfwriaeth fel Bil Diogelwch Ar-lein y DU³⁵.

Teimlai grwpiau fod diffyg hysbysebu neu ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o risgiau a diogelwch ar-lein plant a thrafodwyd yr angen am gorff cyffredinol ehangach a allai ddarparu arweiniad a gwybodaeth. Roeddent hefyd yn awgrymu y byddai angen i'r corff hwn ymgymryd â rôl fonitro gan fod y rhyngwrwyd yn cael ei weld fel rhywbeth rhad ac

am ddim i bawb gyda'r graddau o wybodaeth ffug neu sgamiau ac roedd y cyfranogwyr am iddi fod yn haws adrodd am weithgarwch 'amheus'.

Wel, rydw i'n defnyddio fy ffôn, rydw i'n defnyddio'r rhyngwrwyd drwy'r dydd a dw i erioed wedi gweld unrhyw beth am hysbyseb i fi gael deall mwy am ddiogelwch plant ar y we, does dim sôn am unrhyw ymgyrch allan yna.

Grŵp Gorchwyl Rhieni

Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch pwy fyddai rhywun yn 'ymddiried ynndo' ac a allai fod â'r adnoddau i ymgymryd â'r rôl hon – er enghraifft, Llywodraeth Cymru neu fforwm annibynnol fel sefydliad defnyddwyr – ac yn wir a oedd modd rheoleiddio neu reoli'r rhyngwrwyd.

T1: *Hynny yw os mai ond rhyw wybodaeth sylfaenol oedd ar wefan gov.uk, dwi ddim yn gwybod yn union ond fyddwn i ddim yn ei adael i'r llywodraeth ei wneud.*

T2: *Rydych chi eisiau rhywun annibynnol, rhywun sy'n mynd i droi rownd a dweud oce dyw'r llywodraeth ddim yn gwneud hyn yn iawn.*

Grŵp Gorchwyl Rhieni

T1: *Does dim seilwaith na dim byd sy'n ddigon mawr i blismona'r we*

T2: *Mae'n rhaid cael adnoddau ... oherwydd mae'r cyfan yn ymwneud ag arian y rhyngwrwyd a'r cwmnïau mawr yma fel Facebook mae'r cyfan yn ymwneud â hysbysebu, dydyn nhw ddim yn poeni.*

T3: *Onid mae'n rhaid iddo fod yn rhywun sydd â'r pŵer i gau gwefan os yw'n cael ei ystyried yn amhriodol.*

T2: *Onid mae'n mynd i gostio ond yw e? Tipyn o arian.*

Grŵp Gorchwyl Rhieni

4.7 Y Gymraeg

Nodwyd bod yn rhaid i'r Gymraeg fod yn ganolog i unrhyw wybodaeth neu gefnogaeth a ddarperir.

Heb os beth bynnag sydd ar gael i rieni, rwy'n meddwl bod angen iddynt godi ymwybyddiaeth ohono, ac os oes unrhyw beth ffurfiol, mae angen iddo fod yn ddwyieithog.

Grŵp Terfynol Rhieni

Trafodaethau rhieni ynghylch defnyddio'r Gymraeg gyda thechnoleg yn ymwneud â chyfieithu a thrawsgrifio. Roedd y rhyngwrwyd yn ddefnyddiol lle roedd Google Translate yn cael ei ddefnyddio gan deuluoedd i helpu gyda gwaith cartref mewn teuluoedd lle roedd plant yn mynd i ysgol Gymraeg a rhieni ddim yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nododd sawl cyfranogwr nad oedd Google Translate mor ddefnyddiol yn y Gymraeg y tu hwnt i frawddegau syml (gan nodi nad yw hyn o reidrwydd yn unigryw i'r Gymraeg). Nododd cyfranogwr a gafodd gyfarfodydd gwaith ar-lein yn y Gymraeg nad oedd y nodwedd trawsgrifio awtomatig yn ymdopi â thrawsgrifio'r sain i destun yn y Gymraeg. Dywedodd pobl ifanc a oedd yn y drafodaeth grŵp eu bod yn dueddol o beidio â

defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol ond yn dweud eu bod yn gallu cyrchu gwefannau neu apiau yn y Gymraeg os oeddent yn dymuno ac yn gallu addasu'r iaith ar eu ffonau.

5 Casgliadau

5.1 Diffiniad o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru

Roedd rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r syniad o gael Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru. Roeddent yn gwerthfawrogi'r potensial fel adnodd ar gyfer gwella eu gwaith, ac am wella gwaith y rhai sy'n cael eu heffeithio gan anghydraddoldebau digidol. Roeddent yn awgrymu dylai'r diffiniad o'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru gyfeirio'n benodol at fforddiadwyedd fel rhan o hygyrchedd. Fel y nodwyd uchod, rydym yn gweld fforddiadwyedd fel rhan o'r ymatebion polisi i'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru felly byddai'n dadlau bod angen rhan allweddol o ymatebion o'r fath. Roeddent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd hyfforddiant a'r iaith Gymraeg i sicrhau nad yw'n cael ei anghofio. Dylai'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru fod yn safon sy'n cael ei phenderfynu ar y cyd gyda chymaint o gyfranogiad a diddordeb gan gymdeithas sifil ehangach â phosibl, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi'u hallgáu o'r byd digidol.

5.2 Gweithrediad Polisi

Bydd angen ymrwymiad ariannol a gwleidyddol gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau er mwyn cyflwyno Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru, yn enwedig lle nad yw pwerau wedi'u datganoli. Dylid cael ymrwymiad i sicrhau bod y safon yn cael ei chyfathrebu'n glir lle mae ei angen fwyaf, a bod strategaethau i helpu pobl i gyrraedd y safon yn effeithiol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth yn gyffredinol o bwysigrwydd digidol er mwyn gwella bywydau dinasgyddion. Er bod fforddiadwyedd yn cael ei gynnwys yn y safon ar ffurf "hygyrchedd", bydd cyllid yn enwedig o bwysig wrth gyflwyno'r safon hon, gan fod fforddiadwyedd wedi codi fel pryder allweddol yn y cyd-destun hwn.

5.3 Gweithrediad Ymarferol

Bydd natur wledig ac anawsterau wrth geisio cyrraedd y rhai nad ydynt yn cyrraedd y safon yn heriol o ran cyflwyno polisi Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru. Dylid ystyried amrywiaeth cymunedau ac unigolion yng Nghymru. Mae'n bwysig ystyried y rhwystrau posibl ar gyfer grwpiau penodol wrth gyflwyno Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol, ond mae angen hefyd caniatáu ar gyfer dealltwriaeth fwy cynnil o amgylchiadau unigol wrth ei chyflwyno, gan ganolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer y safon hon.

5.4 Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru v Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol

Yn ystod ein trafodaeth gyda rhanddeiliaid o Gymru, mae'n glir fod materion rhanbarthol allweddol megis yr iaith Gymraeg, cysylltedd arafa mewn ardaloedd gwledig/anghysbell,

grwpiau cymunedol penodol ac adnoddau Cymraeg (e.e. darparwyr cymunedol ac elusennol) oll yn faterion allweddol sydd angen eu hystyried.

Byddem hefyd yn nodi bod nifer o ymatebwyr wedi dweud bod Cymru yn arafach mewn rhai agweddau ar gynhwysiant digidol o'i gymharu â gweddill y DU. Rydym ni eisoes wedi nodi uchod y sylwadau'n ymwneud â thlodi perthynol a fforddiadwyedd. Gwnaed cymariaethau eraill yn ymwneud â'r canlynol:

- Cyflwyno band eang neu ffibr
- Newidiadau i hyblygrwydd rheoliadau cynllunio i hwyluso cyflwyno technoleg ddigidol
- Nifer y darparwyr ar y farchnad ar gyfer rhanbarthau penodol o ganlyniad i hyfywedd masnachol
- Defnydd o dechnoleg ddigidol yn y sector gwirfoddol

Rydym ni'n credu bod y sylwadau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau rhanbarthol a Chymreig pwysig. Fodd bynnag, mae angen gwell dealltwriaeth o'r gwahaniaeth gwirioneddol rhwng rhanbarthau ac arferion eraill yn y DU i ganfod unrhyw anghenion neu bolisi penodol ar gyfer Cymru. Codwyd y pwynt hwn gan y sefydliadau cenedlaethol a gafodd eu cyfweld (e.e. BT). Yn ogystal, mae'r llenyddiaeth cynhwysiant digidol ehangach ac ystadegau cenedlaethol y DU yn cyfeirio at y ffactorau hyn fel ffactorau sy'n gyffredin mewn ardaloedd eraill o'r DU ac yn rhyngwladol. Er enghraifft, mae materion ynglŷn â'r Saesneg fel ail iaith a mynediad digidol i'w gweld o fewn cymunedau mudwyr trefol yng Nghymru ac yn y DU yn ehangach. Yn yr un modd, mae materion yn ymwneud â mynediad gwledig/anghysbell i'w gweld yn eang yn yr Alban a Gogledd Orllewin Lloegr er enghraifft. Nid yw hyn yn diystyru pwysigrwydd y materion hynny o bell ffordd. Ond, heb ragatal ein canfyddiadau cyffredinol, mae'n bosibl y gallai agweddau a gwerth penodol Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru ddibynnu ar sut y gellir defnyddio polisi, ymarfer a thechnoleg i fynd i'r afael â'r rhain yn lleol yng nghyd-destun Cymru ac i sicrhau bod cymaint o ddinasyddion Cymru â phosibl yn cyrraedd y safon hon.

5.5 Meysydd ar gyfer ymyrraeth polisi neu ffocws

Mae'n ymddangos bod y sylwadau gan randdeiliaid a chartrefi yng Nghymru yn amlygu set o feysydd lle gallai fod angen ymyrraeth polisi i ddarparu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru.

- Mynediad a fforddiadwyedd
- Hyfforddiant a chefnogaeth
- Cyswllt ag adnoddau lleol neu ranbarthol eraill

5.5.1 Mynediad a fforddiadwyedd

Mae gwaith Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU a Chymru wedi gostwng ar adeg pan fo llawer o aelwydydd, os nad y mwyafrif, yn wynebu argyfwng 'costau byw'. Felly, mae mynediad i ryngrwyd digonol a chost isel yn debygol o ddod yn fwyfwy pwysig i deuluoedd, o ystyried dibyniaeth gynyddol ar y rhyngrwyd ond gyda chyllidebau wedi'u gwasgu mae pobl yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch pa filiau i'w

talau. Mewn ymchwil diweddar gan Ofcom³⁶ a Banc Lloyds³⁷, roedd dros draean o bobl wedi cael trafferthion gyda chostau cyfathrebu neu'n teimlo y byddai costau byw cynyddol yn effeithio ar eu gallu i fynd ar-lein. Yn Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU a Chymru nid ydym wedi dewis lefel benodol o wasanaeth band eang (e.e., cyflymder MBs penodol) gan fod hyn yn gymharol â maint y cartref. Yn hytrach rydym wedi datgan: **"Gyda digon o gyflymder i gefnogi pob aelod o'r teulu i gael mynediad i'r we ar yr un pryd"**. Er bod cyfraddau mynediad gwirioneddol mewn sawl achos yn sylweddol uwch na'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol³⁸ (USO) o 10MBs, mae llawer is na'r isafswm hwn. Fodd bynnag, mewn llawer o'n gwaith ar gyfer Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol a gwaith diweddar arall ar gynhwysiant digidol mewn rhanbarthau eraill (e.e., Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, Rhanbarth Dinas Lerpwl) gwelwn fod cyflymderau band eang profiadol ynghyd â lefelau data symudol – gan gynnwys presenoldeb cysylltedd gwael a manau problemus – mae pob un ohonynt yn cyfuno i adael llawer o aelwydydd yn is na gofyniad sylfaenol Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol. Mae meini prawf "fforddiadwyedd" Ofcom sef bod USO yn llai na £45 y mis hefyd yn ymddangos yn llawer mwy na gallu teuluoedd incwm isel i dalu. Unwaith eto, mae gwaith diweddar ar gyfer Manceinion Fwyaf wedi canfod bod pwynt pris tariff cymdeithasol uwch na £15 y mis yn rhy uchel i denantiaid tai cymdeithasol fod yn fodlon talu am fynediad. Felly mae cyflawni'r lleiafswm hwn drwy amrywiaeth o ddulliau polisi a dulliau ymarferol yn parhau'n fan cychwyn sylfaenol ar gyfer cynhwysiant digidol.

5.5.2 Hyfforddiant a chefnogaeth

O ganfyddiadau ein grŵp Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru mae angen cefnogaeth ychwanegol i rieni a phlant mewn sgiliau ymarferol, diogelwch a magu hyder. Mae hyn yn wir am rannau eraill o'r DU ond byddem yn nodi'r sylwadau a wnaed gan ymatebwyr ynghylch rôl addysg ac ysgolion wrth gefnogi sgiliau digidol ehangach. Byddem yn nodi TGAU CBAC mewn Technoleg Ddigidol fel enghraifft o ymyriad Cymru i fynd i'r afael â'r angen hwn.

5.5.3 Cyswllt ag adnoddau lleol neu ranbarthol eraill

O'n gwaith ni mae materion natur wledig a chynhwysiant digidol yn mynd dipyn pellach na darparu RhGC i gartrefi. Maent hefyd yn cynnwys mynd i'r afael â mynediad at adnoddau lleol eraill - o ysgolion a llyfrgelloedd i gyfathrebu symudol - a all gefnogi mynediad, sgiliau a chymorth ymarferol. Byddem yn dadlau bod Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol fel y'i datblygir yma yn darparu fframwaith ar gyfer asesu i ba raddau y mae aelwydydd wedi'u gwreiddio mewn cymunedau a lleoliadau a all gefnogi pob agwedd o nwyddau a gwasanaethau digidol i sgiliau a hyder. Nod Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yw bod yn offeryn i helpu i wneud asesiadau o'r fath ar gyfer aelwydydd mewn gwahanol gymunedau Cymreig – a nodi pa rai o'r ardaloedd allweddol o fewn Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol sydd angen y cymorth lleol mwyaf.

5.6 Argymhellion

- Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru, fel trothwy y dylai aelwydydd yng Nghymru gael cymorth i'w gyrraedd ac nid syrthio oddi tano, fel rhan o'r gwaith o osod gweledigaeth a rennir ar gyfer cynhwysiant digidol yng Nghymru.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r llywodraeth ganolog a'r rheoleiddiwr i sicrhau bod y seilwaith band eang a data symudol ar waith fel y gellir cyrraedd y safon lle mae ysgogiadau polisi a rheoleiddio y tu allan i bwerau datganoledig.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru i lywio a mesur cynnydd tuag at Ddangosydd Cenedlaethol Statws Cynhwysiant Digidol.
- Dylai Llywodraeth Cymru a llywodraethau lleol ledled Cymru ddefnyddio'r safon i gataleiddio gweithredu cydgysylltiedig, cydweithredol ar draws sectorau a nodi camau gweithredu polisi ac arfer diriaethol i helpu i gyflawni hyn ar gyfer pob cartref yng Nghymru.
- Mae gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae wrth hyrwyddo cydraddoldeb y Gymraeg wrth ddylunio a darparu systemau, gwasanaethau, hyfforddiant a chymorth digidol yng Nghymru.
- Gall sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru – ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol – ddefnyddio'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Gymru i asesu eu hymagwedd eu hunain, cefnogi cydweithredu, a chyfeirio adnoddau at gynhwysiant digidol.
- Gan adlewyrchu cam datblygu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol, mae angen mwy o waith i ddatblygu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar gyfer mathau eraill o aelwydydd ac ardaloedd gwledig; cyfathrebu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol, gan gynnwys gyda dinasyddion Cymru; archwilio rhwystrau ychwanegol wrth gyflawni'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol; ac i gynnull rhanddeiliaid polisi ac ymarfer yng Nghymru i nodi pwy sydd angen gwneud beth i gyflawni'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ledled Cymru, a sut y gellir bwrw ymlaen â hyn.

5.7 Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i'r bobl a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a roddodd o'u hamser a rhannu eu barn â ni, a'r rhanddeiliaid a roddodd o'u hamser i gyfweiliadau neu ymatebion i arolygon. Daw'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol o'ch meddyliau a'ch cyfraniadau chi. Hoffem hefyd ddiolch i'n cydweithwyr academiaidd a gwaith amrywiol sydd wedi bod yn seinfyrddau ac yn gyfeillion beirniadol ynghylch y gwaith. Yn olaf, hoffem ddiolch i'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, yn enwedig Lisa Thomas a Stephen Thomas am eu holl fewnbwn i'r prosiect a'r adroddiad.

6 Adnoddau Digidol Llywodraeth Cymru

- [Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif ganlyniadau, mis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019 \(llyw.cymru\)](#)
- <https://www.ogi.wales/>
- Strategaeth ddigidol i Gymru: Sut y byddwn yn defnyddio digidol, data a thechnoleg i wella bywydau pobl Cymru. Ar gael yma: [Strategaeth ddigidol i Gymru | LLYW.CYMRU](#)
- [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | LLYW.CYMRU](#)
<https://digitalanddata.blog.gov.wales/2021/01/07/digital-strategy-for-wales-mission-4-digital-inclusion/>
- [Strategaeth Ddigidol i Gymru: Cenhadaeth 5 – Cysylltedd Digidol \(gov.wales\)](#)
- [Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru - Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol \(llyw.cymru\)](#)
- [Adroddiad cynnydd ar gynhwysiant digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)
- <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/080313sb102008en.pdf>
- Llywodraeth Cymru, 2022. Cymunedau Digidol Cymru. Ar gael yma: [Digital Communities Wales \(gov.wales\)](#) [Cyrchwyd 18 Mawrth 2022]

7 Atodiad Un: Cyfarfod Rhwydwaith Cynghrair Cynhwysiant Digidol

7.1 Cyfarfod Rhwydwaith 17 Chwefror 2022

Mae Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru yn rhwydwaith o sefydliadau sy'n cyfarfod pob chwarter i drafod cynhwysiant digidol yng Nghymru. Mae ffocws pob cyfarfod yn deillio o'r pum blaenoriaeth a nodir yn 'O Gynhwysiant i Wydnwch: Agenda ar gyfer cynhwysiant digidol':

1. Ymsefydlu cynhwysiant digidol ym mhob sector
2. Prif ffrydio cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
3. Mynd i'r afael â thlodi data fel mater allweddol
4. Blaenoriaethu sgiliau digidol yn yr economi ar ôl Covid
5. Gosod isafswm safon byw digidol newydd

Bydd y briff hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a godwyd gan aelodau'r Rhwydwaith Cynghrair Cynhwysiant Digidol yng Nghymru yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2022 lle bu trafodaeth ynghylch Blaenoriaeth 5: Gosod isafswm safon byw digidol newydd yng Nghymru a mabwysiadu dulliau cyd-gynhyrchu.

Roedd Jane Hutt AS, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Nigel Moss, Pennaeth Cynhwysiant Digidol ac Ariannol Llywodraeth Cymru, a'r Athro Simeon Yates o Brifysgol Lerpwl yn bresennol.

1. Bu'r sesiynau yn yr ystafelloedd ymneilltuo yn trafod y cwestiynau canlynol:
2. Beth fyddai eich sefydliad yn disgwyl ei weld yn cael ei gynnwys mewn Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru?
3. Sut y gallai Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol fod yn ddefnyddiol i chi a'r cymunedau yr ydych chi'n gweithio gyda nhw?
4. Yn ehangach, sut allai aelodau Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru gefnogi dulliau cyd-gynhyrchu o fewn polisïau a rhaglenni cynhwysiant digidol?

Er mwyn hwyluso'r broses gyfeirio, bydd y briff hwn yn cael ei osod gyda'r cwestiynau hyn fel penawdau.

7.1.1 Beth fyddai eich sefydliad yn disgwyl ei weld yn cael ei gynnwys mewn Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru

- Roedd aelodau Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru yn cytuno bod rhaid i Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol gynnwys mesurau cysylltedd, sgiliau a hyder, mynediad i ddyfeisiau, hygyrchedd a fforddiadwyedd. Dylai Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru sicrhau bod gan bawb yng Nghymru gysylltiad dibynadwy a fforddiadwy i'w cartrefi, mynediad i ddyfais, a chymorth i ddysgu'r sgiliau i ddefnyddio'r rhyngwyd yn y modd maen nhw'n ei ddymuno, os maen nhw'n dymuno gwneud hynny.
- Bydd angen mapio'r holl fesurau canlynol ar gyfer y safon yn ddaearyddol: cysylltedd, sgiliau, mynediad i ddyfeisiau, hygyrchedd a fforddiadwyedd. Mae angen creu darlun genedlaethol cyflawn er mwyn deall y sefyllfa.

- Ceir pryder ein bod eisoes yn methu pobl mewn mentrau cynhwysiant digidol presennol ac mai dim ond y rhai hynny sydd wedi cysylltu gyda gwasanaethau neu sefydliadau cymorth eu hunain yr ydym ni'n eu cyrraedd. Y gobaith yw y bydd Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol a'r gweithgareddau casglu data dilynol yn helpu sefydliadau i adnabod unigolion a allai fod heb eu canfod yn flaenorol.
- Bu bron i bob un o'r sesiynau trafod yn sôn am y ffaith fod cysylltedd fforddiadwy a dibynadwy yn dal i fod yn broblem barhaus mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru, ac y byddai angen mynd i'r afael â hynny yn y lle cyntaf.
 - Dyfyniadau: *Os na fyddwn ni'n rhoi sylw i fannau digyswllt yng Nghymru'n fuan iawn, bydd y rhaniad yn anorchfygol. Gallwn ddarparu dyfeisiau, data, cymorth gyda sgiliau – ond ni allwn sicrhau bod band eang yn cyrraedd tŷ os nad yw'n gallu cyrraedd.*
- Bydd angen canolbwyntio ar yr unigolyn wrth greu'r safon genedlaethol hon. Bydd llawer o anghenion amrywiol ymysg dinasyddion yng Nghymru ar gyfer bywydau sydd wedi cysylltu'n ddigidol, felly gallai'r isafswm i rai fod yn wahanol i eraill. Bydd anghenion unigolion a chymunedau yn wahanol iawn ar draws Cymru, felly bydd gwybodaeth leol yn allweddol wrth ei gyflwyno'n briodol.
 - Dyfyniad: *Bydd y broblem y mae'r safon hon yn ceisio ei datrys yn wahanol ym mhob ardal – gwledig i drefol, ardaloedd o amddifadedd, demograffeg sy'n newid – mae'n rhaid ystyried pethau fel isadeiledd a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r holl broblemau eraill megis amddifadedd.*
- Bydd angen sicrhau cymorth parhaus wedi'i dargedu ar gyfer y rhai sydd wedi'u hallgáu o'r byd digidol, ac i'r rhai sy'n cefnogi pobl i sicrhau cynhwysiant digidol. Bydd buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn yn parhau i fod yn hanfodol yn y tymor canolig. Ni ellir rhoi'r baich o sicrhau bod unigolion yn cyrraedd safon ofynnol ar sefydliadau sydd eisoes yn cael eu gorweithio ac sy'n aml yn cael eu harwain gan wirfoddolwyr, heb ddarparu adnoddau ychwanegol ar eu cyfer. Wrth i gyfran uwch o ddinasyddion fynd ar-lein, y rhai sy'n dal i gael eu hallgáu fydd angen y cymorth mwyaf.
 - Dyfyniad: *Ni ellir rhoi gofyniad cyfreithiol ar sefydliadau cymorth i sicrhau bod y bobl mae'n nhw'n eu cefnogi'n cyrraedd Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol – mae angen adnoddau a chymorth ar y sefydliadau hynny – mae'n bosibl mai nhw fyddai'n rhoi cymorth i'r unigolyn, ond dylen nhw gael cymorth i wneud hynny.*
- Bydd angen ail-edrych ar y safon ofynnol yn aml – mae technoleg a'r byd digidol a'r hyn y mae dinasyddion ei angen yn newid yn sydyn a bydd angen i'r safon hon fod yn gallu addasu i'r dirwedd gyfnewidiol.
- Mae'n rhaid i Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru ystyried safonau'r iaith Gymraeg ac mae hynny'n cynnwys deunydd cyfrwng Gymraeg ac adnoddau hygyrchedd yn yr iaith Gymraeg. Mae angen mynediad cyfatebol i'r rhyngwyd i'r rhai hynny sy'n siarad Gymraeg fel iaith gyntaf, fel nad yw'r profiad o ddefnyddio'r rhyngwyd yn llai na'r rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Dylai Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol gynnwys safon i alluogi pobl i gyfranogi yn y modd maen nhw'n dymuno ac yn eu hiaith ddewisol. Mae angen i'r iaith Gymraeg gael ei chynnwys o'r dechrau, ac nid cyfieithu wedyn.

- Wrth ddylunio a darparu gwasanaethau digidol cyhoeddus, dylai sefydliadau fod yn ymwybodol o gynhwysiant, gan gynnwys materion tlodi data, a dylid dylunio gwasanaethau i leihau'r effeithiau hyn. Mae graddio tudalennau gwe gyda gradd sero (gan olygu nad oes costau data i bobl ddefnyddio'r gwasanaethau hynny) yn rhan o'r ateb, ond mae hefyd angen dylunio safleoedd nad oes angen data sylweddol i'w defnyddio.
- Cafwyd nifer o gwestiynau ynglŷn â pha feini prawf fydd yn cael eu defnyddio i bennu'r hyn y mae cysylltiad digidol yn ei olygu. Os byddwn ni'n ei gyfyngu i wasanaethau hanfodol, h.y. "mae gen i'r sgiliau, y ddyfais a'r cysylltedd i gael galwad fideo gyda'r meddyg teulu"; gallai pobl golli allan ar nifer o'r buddion llesiant ac ariannol o fod ar-lein. Pa lefel o gysylltedd fydd yn cael ei ystyried fel yr isafswm? Pa fframwaith sgiliau fydd yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a yw person wedi'i gynnwys yn ddigidol? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau hynny? Sut allwn ni ddefnyddio'r safon i fesur hyder digidol, nid cynhwysiant digidol yn unig?
 - Dyfyniad: *mae angen i'r statws 'wedi'i gynnwys yn ddigidol' nodi cyfres o ddangosyddion oddi tano. Felly, beth yw'r dangosyddion hynny? Mae angen gwaith ymchwil, tystiolaeth, ffynonellau data, profiad ac unwaith y bydd y rhain yn hysbys, gallwn edrych ar ymyriadau polisi i fynd i'r afael â'r rhain.*

7.1.2 Sut y gallai Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol fod yn ddefnyddiol i chi ac i'r cymunedau yr ydych chi'n gweithio gyda nhw?

- Dim ond os bydd y safon hon yn ddeddfwriaeth neu os bydd sefydliadau'n cael eu harwain yn orfodol i ddangos sut maen nhw'n bodloni ac yn gorgyrraedd y safon gan ddefnyddio mesurau safonol y bydd y safon hon yn ddefnyddiol.
 - Dyfyniad: *Mae angen i'r safon fod yn gadarn.*
- Ceir dangosydd eisoes yn ymwneud â chysylltedd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac mae darparwyr band eang wedi ymrwmo i ddarparu isafswm o 10Mbps, ond ni welwyd fod hyn wedi effeithio ar gysylltedd fforddiadwy mewn gwirionedd mewn ardaloedd sylweddol o Gymru. Mae angen sicrhau atebolrwydd a chyfrifoldeb ar gyfer y safon hon.
- Dylai'r safon hon gael ei hymgorffori mewn meysydd megis comisiynu, ffrydiau ariannu a gofynion adrodd. Bydd sicrhau gwaelodlin gyda chanllawiau a safonau clir y mae angen i bawb yng Nghymru weithio tuag atynt yn fuddiol iawn er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn cael y cymorth sydd ei angen a bod y sefydliadau sy'n cefnogi'r bobl hyn yn gweithio tuag at yr un safon ar draws Cymru ac yn cael y cymorth angenrheidiol i wneud hynny.
- Dylai gweithgareddau mapio a chasglu data a fydd yn cael eu cyflawni i wneud y safon hon yn effeithiol fod ar gael i sefydliadau allu cael mynediad a'u defnyddio i'w helpu i ddeall y sefyllfa y mae unigolion o fewn eu cymunedau yn eu hwynebu. Bydd y data hwn yn ddefnyddiol dros ben i nifer o sefydliadau yn y Rhwydwaith er mwyn deall gwir natur y broblem yn eu hardaloedd ac i dargedu adnoddau mewn modd strategol. Gwyddwn fod allgáu o'r byd digidol yn un o'r ffactorau sy'n pennu iechyd (y "gyfraith godal gwrthdro digidol") ac felly bydd

gwybod pwy sydd o dan y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn bwysig i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol hefyd.

- Dyfyniadau: *'Mae gan Mrs Jones hwn, hwn a hwn, felly mae popeth yn iawn – ond yr hyn sy'n bwysig mewn gwirionedd yw ble mae'r wybodaeth honno'n mynd – pam mae hynny'n bwysig – i bwy yr ydym ni'n adrodd y pethau hyn? Mae angen casglu data cenedlaethol, lle mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu a'i bod ar gael i ni er mwyn i ni allu gweld beth yr ydym ni'n ei fwydo i'r darlun cenedlaethol*
- *Mae angen i'r wybodaeth gael ei chasglu, ac mae angen i ni allu ei gweld er mwyn llenwi'r bylchau. Os mae rhywun yn dod i mewn i'r gwasanaethau cyhoeddus am ba bynnag reswm, pe byddem yn gallu gweld ble maen nhw o safbwynt digidol, byddai hynny'n ein cynorthwyo i deilwra'r gwasanaethau mae arny'n nhw eu hangen er mwyn eu cynorthwyo'n llawer gwell*
- Mae'n rhaid i'r safon hon beidio â bod yn arfer ar bapur yn unig – mae'n rhaid iddi ddechrau gydag anghenion unigolyn, nid ffurflen i bawb er mwyn gallu rhoi tic unwaith y bydd pawb wedi'u cysylltu. Er mwyn i'r safon fod yn ddefnyddiol i sefydliadau, dylai fod yn ffordd o gyrraedd canlyniad, nid yn ganlyniad ynddi'i hun.
 - Dyfyniad: *ni all y safon fod yn arfer ar bapur yn unig; mae angen i'r broses fod yn ymgysylltiad ystyrlon gyda'r byd digidol – gall gofynion cyfreithiol fel safon fod yn gymhelliant gwrthnysig gan eu bod yn canolbwyntio ar y canlyniad yn unig ac nid ar ddeiliannau ystyrlon i bobl*

7.1.3 Yn ehangach, sut gall aelodau Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru gefnogi dulliau cyd-gynhyrchu mewn rhaglenni a pholisïau cynhwysiant digidol?

- Fel yr amlinellwyd yng nghyflwyniad yr Athro Yates, mae angen i'r gwaith hwn fod yn seiliedig ar brofiadau byw amrywiaeth o bobl sy'n profi allgáu o'r byd digidol mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, mae angen creu'r cwestiynau yn yr arolwg Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol gyda phobl a fyddai'n cwblhau'r arolwg. Gall iaith fod yn un o'r rhwystrau mwyaf. Bydd ystod amrywiol aelodau Rhwydwaith Cynghrair Cynhwysiant digidol Cymru yn fuddiol iawn i'r dulliau cyd-gynhyrchu a amlinellir ar gyfer y darn yma o waith. Mae'n ein galluogi i estyn i amrywiaeth eang o gymunedau ledled Cymru a dylid gwneud defnydd o hynny.
- Os mae aelodau'r Rhwydwaith eisiau gwell data, a rhaglenni cymorth wedi'u targedu'n well, mae dyletswydd arnom ni i gymryd rhan ac ymgysylltu gyda chreu'r polisïau a'r rhaglenni hyn. Trwy gynnal y cyfarfodydd Rhwydwaith hyn a thrafod y problemau a rhannu ein gwibodaeth a'n profiad gyda'n gilydd, gallwn gefnogi'r gwaith o gyd-gynhyrchu polisïau a rhaglenni cynhwysiant digidol – cyn belled â bod rhywun yn gwrando.
- Nid yw'n ymwneud â sut y gallwn gefnogi dulliau cyd-gynhyrchu ar gyfer polisi a rhaglenni yn unig. Mae'n ymwneud hefyd â sut yr ydym yn rhannu ein gwibodaeth a'n profiad gyda'n gilydd i greu gwell rhaglenni a gwasanaethau.

- Roedd aelodau'r Rhwydwaith Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru yn croesawu'r cyfle i archwilio'r pwnc ac i rannu eu syniadau gyda'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru, ac maent yn awyddus i barhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i wireddu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru.

8 Atodiad 2: Sefydliadau targed ar gyfer ymgynghoriad Delphi

| Enw'r sefydliad |
|---|
| Cyngor Caerdydd - Gwasanaethau Cymorth Digidol |
| The Big Issue |
| Swansea MAD |
| Citizens Online |
| Learning Foundation |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| RNIB |
| Cyngor Dinas Casnewydd |
| Prifysgol De Cymru |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Computer Recyclers Wales |
| ComputerAid |
| Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru |
| UNITE North West Retired Members Branch |
| Medrwn Môn |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Diverse Cymru |
| RWG Mobile |
| Cyngor Gwynedd |
| Cyngor Sir Powys |
| Ystradgynlais Mind |
| ProMo Cymru |

9 Appendix Atodiad Tri: Canllaw Cyfweiliad Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol i Randdeiliaid

9.1 CYD-DESTUN A'R DIGIDOL

- Dywedwch rywfaint am eich sefydliad a'r hyn y mae'n ei wneud?
- Beth mae eich sefydliad yn ei wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a pha fath o grwpiau bregus ac ymylol ydych chi'n gweithio gyda nhw?
- Pa wasanaethau ydych chi'n eu darparu i'r rhai yr ydych chi'n gweithio gyda nhw? Sut mae technolegau digidol yn cael eu hymgorffori yng ngwaith eich sefydliad. Pa wasanaethau yr ydych chi'n eu darparu sy'n dibynnu ar ddefnyddio technolegau digidol?
- A allwch chi roi enghreifftiau o sut yr ydych chi wedi defnyddio'r technolegau hyn yn ymarferol? Pa mor ddefnyddiol oedd y technolegau hyn yn eich barn chi o ran y gwaith a oedd angen ei wneud?
- Sut mae'r cynnydd mewn defnydd o dechnolegau digidol wedi effeithio ar eich gwaith?
- Pa mor hyderus ydych chi a'ch cydweithwyr yn eich gallu i gael mynediad at dechnolegau digidol a'u defnyddio yng nghyd-destun mynd i'r afael ag anghydraddoldebau digidol?
- A fydddech chi'n dweud eich bod chi a'ch cydweithwyr wedi derbyn hyfforddiant digonol, os o gwbl, i ddefnyddio'r technolegau digidol angenrheidiol i gyflawni eich swydd? Os felly, a oeddech chi'n ei weld yn ddefnyddiol? Beth oedd leiaf defnyddiol? Pam a beth yw'r bylchau hyfforddiant?

9.2 DIFFINIAD O SAFON OFYNNOL AR GYFER BYWYD DIGIDOL YNG NGHYMRU

Rydym ni'n datblygu diffiniad o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol. Fel rhan o'n prosiect Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol cenedlaethol – ac yn seiliedig ar drafodaethau gydag aelodau o'r cyhoedd – rydym ni wedi llunio diffiniad o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol sy'n adlewyrchu barn gwahanol aelwydydd. Dyma'r diffiniad: “Mae safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol yn cynnwys cael mynediad i'r rhynggrwyd, offer digonol a digon o hyfforddiant a chymorth, ond mae'n fwy na hynny. Mae'n golygu gallu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu gyda chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus.”

- Gan ein bod yn archwilio beth mae hynny'n ei olygu yng Nghymru yn benodol, beth fyddai Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru angen ei gynnwys yn eich barn chi, ac o'ch profiad chi?
- Ydych chi'n credu y byddai angen i Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru edrych yn wahanol i Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon? Ym mha ffyrdd a pham?
- Beth yw eich barn am y diffiniad a luniwyd gennym? Ym mha ffyrdd, os o gwbl, mae'n berthnasol i'r bobl yr ydych chi'n eu helpu / yn gweithio gyda nhw?

- I ba raddau mae'n berthnasol i'r cyd-destun Cymreig? Os felly, ym mha ffyrdd? Pam / pam ddim? Ydych chi'n credu bod unrhyw agweddau penodol o gynhwysiant digidol

9.3 GOBLYGIADAU POLISI AC YMARFEROL CYFLWYNO SAFON OFYNNOL AR GYFER BYWYD DIGIDOL YNG NGHYMURU

- Pa fath o lunwyr polisi mae eich sefydliad yn gweithio â nhw, a pha fath o waith ydych chi'n ei wneud gyda nhw?
- Ydych chi'n credu y byddai gweithredu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru yn fuddiol, a pham?
- O ystyried ein diffiniad o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol cenedlaethol, beth sydd angen ei wneud o safbwynt polisi yn eich barn chi i'w weithredu ar draws y DU, ac yn fwy penodol, yng Nghymru?
- Pa heriau ydych chi'n eu rhagweld o ran gweithredu'r diffiniad hwn, neu ddiffiniad diwygiedig i Gymru, trwy weithio'n agos gyda llunwyr polisi? A oes unrhyw heriau penodol wrth gyflwyno Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru o'i gymharu â'r cyd-destun cenedlaethol ehangach? A sut fydddech chi'n mynd i'r afael â'r heriau hynny?
- Pe byddai diffiniad o Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yng Nghymru yn cael ei gydnabod a'i gyflwyno o safbwynt polisi, ym mha ffyrdd, os o gwbl, y bydddech chi'n ei ymgorffori i'ch arferion presennol? Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y bydddech chi'n addasu, ehangu ac yn adeiladu ar eich arferion presennol (e.e. lobbïo, codi ymwybyddiaeth a darparu adnoddau, hyfforddiant llythrennedd digidol) gyda'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau digidol?
- Pa heriau ydych chi'n eu rhagweld wrth addasu eich arferion presennol?

10 Ôl-nodiadau

¹ Ariennir y prosiect MDSL gan The Nuffield Foundation dan grant rhif FR000022935. Mae The Nuffield Foundation yn ymddiriedolaeth elusennol annibynnol gyda'r genhadaeth o arwain llesiant cymdeithasol yn ei flaen. Mae'n ariannu gwaith ymchwil sy'n sylfaen i bolisi cymdeithasol, yn bennaf ym meysydd Addysg, Llesiant a Chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr sy'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau mewn dulliau meintiol a gwyddonol. The Nuffield Foundation a sefydlodd 'Nuffield Council on Bioethics' a'r 'Ada Lovelace Institute' ac mae'n cydariannu'r rhain. Mae'r Sefydliad wedi ariannu'r prosiect hwn, ond mae'r farn a fynegir yn eiddo i'r awduron ac nid yw o reidrwydd yr un farn â'r Sefydliad.

² <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/wales-fairer-2018>; <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/how-coronavirus-has-affected-equality-and-human-rights>; <https://www.unesco.org/en/media-information-literacy>

³ French, Quinn, and Yates (2018), Digital Motivation, Good Things Foundation.

⁴ <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/multi-sector-research/affordability-of-communications-services>

⁵ Yates and Lockley (2018). Social media and social class. *American Behavioral Scientist*, 62(9), 1291-1316.; Yates, Kirby and Lockley (2015). Digital media use: Differences and inequalities in relation to class and age. *Sociological research online*, 20(4), 1-21.; Clayton, and Macdonald (2013) The limits of technology: social class, occupation and digital inclusion in the city of Sunderland, England. *Information, Communication & Society* 16(6): 945–966; Helsper (2012) A corresponding fields model for the links between social and digital exclusion. *Communication Theory* 22(4): 403–426. Helsper and Reisdorf (2017). The emergence of a “digital underclass” in Great Britain and Sweden: Changing reasons for digital exclusion. *New media & society*, 19(8), 1253-1270; Robinson et al. (2015) . Digital inequalities and why they matter. *Information, communication & society*, 18(5), 569-582.; Robinson, (2009). "A Taste for the Necessary: A Bourdiesuan Approach to Digital Inequality.", *Information, Communication and Society*, Vol. 12, No. 4, p. 488-507; van Deursen and Helsper, (2018). Collateral benefits of Internet use: Explaining the diverse outcomes of engaging with the Internet. *new media & society*, 20(7), 2333-2351; van Deursen, Helsper, Eynon, and van Dijk, 2017. The compoundness and sequentiality of digital inequality. *International Journal of Communication*, 11, 452-473.

⁶ [Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau | LLYW.CYMRU](#)

⁷ <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/media-literacy-research>

⁸ <https://en.unesco.org/news/media-and-information-literate-citizens-think-critically-click-wisely>

⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/uks-digital-strategy/uk-digital-strategy>

¹⁰ <https://www.gov.uk/government/publications/online-media-literacy-strategy>

¹¹ <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/media-literacy-research>

¹² <https://www.gov.uk/government/publications/essential-digital-skills-framework/essential-digital-skills-framework>

¹³ <https://www.goodthingsfoundation.org/insights/the-economic-impact-of-digital-inclusion-in-the-uk/>

¹⁴ <https://www.liverpool.ac.uk/humanities-and-social-sciences/research/research-themes/centre-for-digital-humanities/projects/big-data/>

¹⁵ Davis, A., Stone, J., Blackwell, C., Padley, M., Shepherd, C., and Hirsch, D., (2022) A Minimum Income Standard in the UK for 2022. York: Joseph Rowntree Foundation.

¹⁶ Townsend, P. (1962). The meaning of poverty. *The British Journal of Sociology*, 13(3), 210-227; Townsend, P. (1954). Measuring poverty. *The British Journal of Sociology*, 5(2), 130-137.

¹⁷ Sen, A. (1993). Capability and well-being. *The quality of life*, 30, 1-445; Sen, A. (1999). *Commodities and capabilities*. OUP Catalogue; Sen, A., Sen, M. A., Foster, J. E., Amartya, S., & Foster, J. E. (1997). *On economic inequality*. Oxford university press; Nussbaum, M. C. (2001). *Women and human development: The capabilities approach* (Vol. 3). Cambridge University Press.

¹⁸ Tsatsou, P., Higgs, G., Stafford, I., Fry, R. a Berry, R., 2011. Understanding the role of ICT use in connectivity of minority communities in Wales.

¹⁹ Higgs, P.T.I.S.G. a Berry, R.F.R., ICT use and connectivity of minority communities in Wales. Vancouver

²⁰ Gann, B. (2019) Digital Inclusion and Health in Wales, *Journal of Consumer Health on the Internet*, 23:2, 146-160, DOI: 10.1080/15398285.2019.1608499; Gann, B., 2018. Digital inclusion in health and care in Wales: summary report; Gann, B., 2019. Digital inclusion and health in Wales. *Journal of Consumer Health on the Internet*, 23(2), tud.146-160.

²¹ Wu, Y., Lindsay, S., Cable, J., Jones, R., Evans, L. a Xie, X., 2018. Digital Media Usage of Sensory Impaired Users in Wales 2018 Report; Wu, Y., Lindsay, S., Evans, L., Porcheron, M., Clark, L. a Jones, R., 2021. Enabling Digital First: A Case Study of Sight-Impaired Users in Wales.

²² Davies, A. R. et al (2019) Population health in a digital age: The use of digital technology to support and monitor health in Wales', *Ar gael y ma: PHW_Digital_Tech_Report2019_Eng.pdf* (bangor.ac.uk); Davies, A., 2020. IOT, smart technologies, smart policing: the impact for rural communities. In *Smart village technology* (tud. 25-37). Springer, Cham; Davies, A.R., Sharp, C., Homolova, L. a Bellis, M., 2019. Population Health in a Digital Age. The use of digital technology to support and monitor health in Wales.

-
- ²³ Saleminck, K., Strijker, D. a Bosworth, G., 2017. Rural development in the digital age: A systematic literature review on unequal ICT availability, adoption, and use in rural areas. *Journal of Rural Studies*, 54, tud.360-371.
- ²⁴ Philip, L., Cottrill, C., Farrington, J., Williams, F. a Ashmore, F., 2017. The digital divide: Patterns, policy and scenarios for connecting the 'final few' in rural communities across Great Britain. *Journal of rural studies*, 54, tud.386-398. Vancouver
- ²⁵ Townsend, L., Sathiaseelan, A., Fairhurst, G. a Wallace, C., 2013. Enhanced broadband access as a solution to the social and economic problems of the rural digital divide. *Local Economy*, 28(6), tud.580-595.
- ²⁶ Malecki, E.J., 2003. Digital development in rural areas: potentials and pitfalls. *Journal of rural studies*, 19(2), tud.201-214.
- ²⁷ Norris, L., 2020. The spatial implications of rural business digitalization: case studies from Wales. *Regional Studies, Regional Science*, 7(1), tud.499-510.
- ²⁸ Roberts, E., Anderson, B.A., Skerratt, S. a Farrington, J., 2017. A review of the rural-digital policy agenda from a community resilience perspective. *Journal of Rural Studies*, 54, tud.372-385.
- ²⁹ Ashmore, F.H., Farrington, J.H. a Skerratt, S., 2017. Community-led broadband in rural digital infrastructure development: Implications for resilience. *Journal of Rural Studies*, 54, tud.408-425.
- ³⁰ Young, J.C., 2019. Rural digital geographies and new landscapes of social resilience. *Journal of Rural Studies*, 70, tud.66-74.
- ³¹ Komorowski, Ł. a Stanny, M., 2020. Smart villages: Where can they happen? *Land*, 9(5), tud.151; 1. Stojanova, S., Lentini, G., Niederer, P., Egger, T., Cvar, N., Kos, A. a Stojmenova Duh, E., 2021. Smart villages policies: Past, present and future. *Sustainability*, 13(4), tud.1663; Visvizi, A., Lytras, M.D. a Mudri, G. golygyddion, 2019. *Smart Villages in the EU and Beyond*. Emerald Group Publishing; Zavratinik, V., Kos, A. a Stojmenova Duh, E., 2018. Smart villages: Comprehensive review of initiatives and practices. *Sustainability*, 10(7), tud.2559.
- ³² https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/244513/2022-september-affordability-of-communications-services.pdf
- ³³ <https://digitalskills.wales/>
- ³⁴ Ofcom, 2021, Online Nation 2021 Report, https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0013/220414/online-nation-2021-report.pdf
- ³⁵ <https://bills.parliament.uk/bills/3137>
- ³⁶ <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/multi-sector-research/affordability-of-communications-services>
- ³⁷ Lloyds Bank (2022) 2022 Consumer Digital Index [UK Consumer Digital Index 2022 | Lloyds Bank](https://www.lloydsbank.com/uk-consumer-digital-index-2022)
- ³⁸ <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-8146/>